Department of Energy & Climate Change

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Department of the Environment
www.doeni.gov.uk

# Ymgynghoriad

# Adolygu'r Broses o Leoli Cyfleuster Gwaredu Daearegol

Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd /
Department of Energy and Climate Change
3 Whitehall Place Llundain / London SW1A 2AW
Ffôn: 0300 068 4000 Gwefan: www.decc.gov.uk
© Hawlfraint y Goron 2013

Eiddo'r Goron yw hawlfraint y gwaith gosod teipograffyddol a'r dyluniad. Gellir ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn unrhyw gyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y goron dros y cynnwys a nodi enw'r cyhoeddiad.

Am ragor o wybodaeth ynghylch yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch ag:
Ymgynghoriad Proses Leoli'r CGD / MRWS Siting Process Consultation
Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd / Department of Energy and Climate Change
Ystafell / Room M07
55 Whitehall
Llundain / London
SW1A 2EY
Ebost: radioactivewaste@decc.gsi.gov.uk

Gellir canfod yr ymgynghoriad ar wefan DECC:

https://www.gov.uk/government/consultations/geological-disposal-facility-siting-process-review

Cyhoeddwyd gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd

# Cynnwys


**Crynodeb gweithredol** **5**.

**Pennod 1 - Cyflwyniad** **8**

Pwrpas yr ymgynghoriad 8

Safbwyntiau'r Llywodraethau 8

Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) 8

Llywodraeth Cymru 9

Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon 9

Llywodraeth yr Alban 10

Cefndir Polisi'r Deyrnas Unedig 10

Gwaredu daearegol 12

Gwirfoddoliaeth a phartneriaeth 14

Fframwaith Llywodraeth y DU ar gyfer gweithredu Gwaredu Daearegol 15

Gweithrediad y broses lleoli cyfleuster Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel (MRWS) 18

Llunio'r ddogfen ymgynghori hon 19

**Pennod 2 - Penderfyniadau a Swyddogaethau** **21**

Gwneud penderfyniadau fel rhan o'r broses dewis safle 21

Yr achos dros newid 21

Y newid arfaethedig yn y dull gweithredu 22

Swyddogaethau fel rhan o'r broses dewis safle 32

Yr achos dros newid 32

Y newid arfaethedig yn y dull gweithredu 32

**Pennod 3 - Y Gofynion Technegol** **36**

Lleoliadau daearegol 36

Yr achos dros newid 36

Y newid arfaethedig yn y dull gweithredu 36

Cynllunio 42

Yr achos dros newid 42

Y newid arfaethedig yn y dull gweithredu 43

Rhestr wastraff 46

Yr achos dros newid 46

Y newid arfaethedig yn y dull gweithredu 49

**Pennod 4 - Cymunedau** **52**

Manteision cymunedol 52

Yr achos dros newid 52

Y newid arfaethedig yn y dull gweithredu 53

Effeithiau cymdeithasol-economaidd ac amgylcheddol 54
Yr achos dros newid 54
Y newid arfaethedig yn y dull gweithredu 56
**Pennod 5 - Crynodeb o’r cwestiynau 59**
Cwestiynau'r ymgynghoriad 59
Sut i ymateb 60
Cyfrinachedd a gwarchod data 61
Copïau ychwanegol 61
Y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad 62
**Geirfa 63**

## Crynodeb gweithredol

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw holi barn ynghylch ffyrdd o ddiwygio a gwella rhai agweddau ar y broses o leoli cyfleuster gwaredu daearegol (CGD) ar gyfer gwastraff ymbelydrol actifedd uwch.

Yng ngoleuni argymhellion y pwyllgor annibynnol ar reoli gwastraff ymbelydrol – The Committee on Radioactive Waste Management (CoRWM) - ac yn unol â’r dull gweithredu yn y rhan fwyaf o wledydd eraill, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) yn dal i gredu mai gwaredu daearegol, ar ôl ei storio cyn hynny mewn lle diogel a chadarn, yw’r polisi cywir ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol dros y tymor hir. I adnabod safleoedd posibl ar gyfer CGD, mae Llywodraeth y DU yn dal o blaid gweithredu ar sail gwirfoddoliaeth (hynny yw, parodrwydd cymunedau lleol i gymryd rhan), gan weithio mewn partneriaeth â’r cymunedau a allai leoli cyfleuster storio maes o law.

Gan adeiladau ar y profiad hyd yma, ac yn dilyn “Cais am Dystiolaeth” oddi wrth y cyhoedd yn gynnar yn 2013, mae’r Llywodraeth yn cydnabod y gellir gwella’r broses bresennol ar gyfer lleoli CGD (fel y’i nodir ym Mhapur Gwyn 2008 - Managing Radioactive Waste Safely), er mwyn helpu cymunedau i ymwneud yn fwy hyderus â’r broses ac, yn y pen draw, helpu i sicrhau datblygiad CGD. Mae’r ddogfen yma’n cynnwys cynigion Llywodraeth y DU ynghylch sut y gellir cyflawni hyn gan amlygu’r prif ystyriaethau.

Yn gyffredinol, cynigir darparu mwy o wybodaeth, yn llawer cynt yn y broses, ynghylch materion fel daeareg ac effeithiau cymdeithasol-economaidd. Cynigiwn hefyd fod y broses ddiwygiedig yn cynnwys ymrwymiad clir a pharhaus i unrhyw gymuned a all fod yn ymwneud â’r broses fedru tynnu’n ôl, a llais uniongyrchol i’r boblogaeth leol yn y penderfyniad terfynol.

Ni fyddai hyn mewn unrhyw fodd yn cymryd lle’r prosesau cynllunio a rheoleiddio statudol y mae’n rhaid eu dilyn wrth ystyried datblygiad o’r natur yma. Yn hytrach, mae’n haen ychwanegol o gymeradwyaeth sy’n rhoi cyfle i gymunedau lleol benderfynu a ydynt yn dymuno bwrw 'mlaen gyda datblygiad CGD neu beidio. Bydd yr holl gyfleoedd arferol i’r cyhoedd fynegi barn drwy’r prosesau caniatâd cynllunio, diogelu, gwarchod a’r amgylchedd yn dal i fodoli.

Isod, ac yn Ffigwr 1, mae crynodeb o’r newidiadau arfaethedig i’r broses dewis safle gan ganolbwyntio ar y prif newidiadau i’r drefn bresennol. Fe’ch gwahoddwn i fynegi barn am y newidiadau hyn.

- Y cam cyntaf fyddai cyfnod o rannu gwybodaeth a thrafod gyda’r cyhoedd. Bryd hynny byddai Llywodraeth y DU yn ceisio codi ymwybyddiaeth o’r prosiect CGD yn genedlaethol.

- Byddid yn darparu gwybodaeth glir a hawdd ei gyrraedd ynghylch daeareg y rhanbarth, rhestr o'r gwastraff i'w waredu ac effeithiau cymdeithasol-economaidd generig gweithredu fel lleoliad CGD. Darperid y wybodaeth o'r cychwyn cyntaf fel sail i'r trafodaethau dechreuol gydag unrhyw gymuned sy'n ystyried mynegi diddordeb.

- Byddai mwy o eglurder yn gynnar yn y broses ynghylch maint ac amseriad y buddiannau cymunedol a'r buddsoddiad tebygol yn yr ardal.

- Gan y byddai CGD yn ddatblygiad seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol, cynigir ei fod yn cael ei ddynodi felly, a'i ddwyn o fewn y drefn gynllunio ar gyfer Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol fel y'i diffiniwyd yn Neddf Cynllunio 2008. Byddid yn datblygu Datganiad Polisi Cenedlaethol ynghylch CGD yn fuan ar ôl lansio'r broses leoli ddiwygiedig, gyda'r datganiad hwnnw'n nodi'r egwyddorion asesu i'w hystyried yn achos ceisiadau cynllunio ar gyfer CGD. Byddai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol hefyd yn destun Gwerthusiad Cynaliadwyedd.

- Byddai'r broses dewis safle yn cael ei newid i fod yn drefn fwy parhaus, ag iddi ddau brif gyfnod (y Cyfnod Dysgu a'r Cyfnod Ffocws). Er mwyn sicrhau nad yw cymunedau'n cael eu gwthio i wneud penderfyniadau cyn eu bod yn barod i wneud hynny, ni fyddai Llywodraeth y DU yn pennu pwyntiau penderfynu ("decision points") yn ystod unrhyw ran o'r broses leoli hon.

- Byddai hawl gan gymunedau i dynnu'n ôl trwy gydol y broses leoli. Byddai esboniad cliriach o ba lefel o awdurdod cyhoeddus a fyddai'n cynrychioli cymunedau sy'n mynegi diddordeb trwy gydol y broses leoli. Hwn fyddai'r Cyngor Dosbarth, neu'r hyn sy'n cyfateb agosaf, (gan gydnabod y gwahaniaethau sy'n bodoli ar draws y gweinyddiaethau datganoledig).


- Byddai'r Cyfnod Dysgu yn cynnwys cynhyrchu adroddiadau annibynnol ar y ddaeareg leol ac effeithiau cymdeithasol-economaidd CGD ar yr ardal leol, gyda Llywodraeth y DU yn talu'r gost a'r adroddiadau'n cael eu danfon i'r awdurdod cynrychioliadol. Os yw'r awdurdod cynrychioliadol a Llywodraeth y DU eu dau yn dymuno parhau i ymchwilio tu hwnt i'r Cyfnod Dysgu, yna byddid yn symud ymlaen i'r Cyfnod Ffocws.

- Byddai'r Cyfnod Ffocws yn ceisio adnabod safleoedd addas posibl o fewn y gymuned a gytunodd i gymryd rhan yn y broses, ac yn eu harchwilio'n fanylach. Ein nod yw dechrau'r taliadau buddiannau cymunedol yn ystod y cyfnod hwn. Byddai'r Cyfnod Ffocws yn cael ei oruchwylio gan Grŵp Llywio â ganddo hawl i wneud penderfyniadau, sef yr awdurdod cynrychioliadol ynghyd â Llywodraeth y DU a Chyfarwyddiaeth Reoli Gwastraff Ymbelydrol yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (RWMD), fel y datblygwr. Byddid hefyd yn ffurfio Partneriaeth Ymgynghorol o ddiddordebau lleol ehangach yn y cyfnod hwn.

- Ar adeg addas yn y Cyfnod Ffocws, byddai rheidrwydd i ddangos cefnogaeth leol fel cam olaf y broses leoli. Heb dystiolaeth bositif o gefnogaeth gymunedol, ni ellid symud ymlaen i ddatblygu CGD.

Tu hwnt i'r pwynt yma, byddai unrhyw ddatblygiad arfaethedig, wrth gwrs, yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau cynllunio a rheoleiddio statudol, a'u gofynion ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

**Ffigwr 1: Amserlen a dilyniant arfaethedig y broses leoli ddiwygiedig –** sef y broses ymgysylltu â'r cyhoedd. Nid yw'n cynnwys gofynion eraill, fel y gwerthusiad amgylcheddol a chynaliadwyaeth, trwyddedu niwclear a chydsyniadau rheoleiddiol eraill. Cânt hwy eu crybwyll mewn rhan arall o'r ddogfen hon. Mae'n bwysig pwysleisio mai darluniadol yn unig yw'r amserlenni a nodir. Yn ymarferol, rhagwelwn y bydd y gwahanol elfennau'n cymryd cyn hired ag y bo angen i fodloni pawb cysylltiedig.




Mae'r ddogfen ymgynghorol hon yn cynnwys peth o gefndir y polisi gwaredu daearegol, yr achos dros newid rhai agweddau o'r broses leoli bresennol a'r newidiadau a gynigir gan Lywodraeth y DU mewn mwy o fanylder. Gofynnir eich barn am y cynigion hyn ac mae nifer o gwestiynau i chi eu hystyried wedi eu cynnwys o fewn y ddogfen.

# Pennod 1 – Cyflwyniad

## Pwrpas yr ymgynghoriad

1.1 Yn 2008, cyhoeddwyd Papur Gwyn o'r enw Managing Radioactive Waste Safely (MRWS)[1] (y cyfeirir ato fel "y Papur Gwyn" yn y ddogfen hon) yn gosod y fframwaith ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol actifedd uwch y Deyrnas Unedig yn y tymor hir. Polisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) yw defnyddio'r dull gwaredu daearegol, ynghyd â storio diogel a chadarn yn y cyfamser, gan gynnal ymchwil a datblygiad parhaus i gefnogi gweithrediad y polisi.

1.2 Eglurodd y Papur Gwyn y byddid yn rheoli'r gwastraff drwy waredu daearegol ac y byddai Llywodraeth y DU yn paratoi a chynllunio ar gyfer gwneud hynny. Roedd hefyd yn nodi'r dulliau rheoleiddio a chraffu annibynnol, a'r broses ar gyfer lleoli cyfleuster gwaredu daearegol (CGD) gan weithredu ar sail gwirfoddoliaeth a phartneriaeth (trefn ychwanegol i'r prosesau cynllunio a rheoleiddio angenrheidiol ar gyfer datblygu CGD). Mae'r ddogfen hon yn gofyn eich barn am newidiadau a gwelliannau a wnaed i'r broses leoli yn y Papur Gwyn, ond nid agweddau eraill ohono.

1.3 Cyhoeddir y ddogfen ymgynghori hon yn dilyn cyfnod o ystyriaeth gan Lywodraeth y DU o'r gwersi y gellid eu dysgu o weithrediad y broses dewis safle hyd yma a'r "Cais am Dystiolaeth" ehangach a wnaed rhwng Mai a Mehefin eleni (gweler paragraffau 1.54 – 1.56).

1.4 Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu cynigion Llywodraeth y DU ynghylch sut y gellid gwella agweddau ar y broses dewis safle er mwyn helpu cymunedau i ymwneud yn fwy hyderus â'r broses, ac yn y pen draw, helpu i sicrhau datblygiad CGD.

1.5 Gwahoddir sylwadau ynglŷn â'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori. Mae cwestiynau penodol i chi eu hystyried mewn gwahanol rannau o'r ddogfen, ac fe'u rhestrir gyda'i gilydd ym Mhennod 5. Yno hefyd dywedir sut i ymateb i'r ymgynghoriad ac amlinellir y camau nesaf.

## Safbwyntiau'r Llywodraethau

1.6 Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cael ei chyhoeddi ar y cyd gan Lywodraethau'r Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

### Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU)

1.7 Yng ngoleuni argymhellion y pwyllgor annibynnol ar reoli gwastraff ymbelydrol – Committee on Radioactive Waste Management (CoRWM – gweler paragraff

[1] *'Managing Radioactive Waste Safely – A Framework for Implementing Geological Disposal'*, Mehefin 2008 http://bit.ly/13LFztm

1.21)[2], a phrofiad amrywiol raglenni rheoli gwastraff ymbelydrol dramor, mae Llywodraeth y DU yn dal i gredu mai gwaredu daearegol, ar ôl ei storio cyn hynny mewn lle diogel a chadarn, yw'r polisi cywir ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol dros y tymor hir. (gweler paragraffau 1.26 – 1.31).

1.8 Mae Llywodraeth y DU hefyd yn dal o'r farn mai'r ffordd orau o ddewis safle yw drwy ddull gweithredu seiliedig ar wirfoddoliaeth a phartneriaeth (gweler paragraffau 1.33 – 1.37).

### Llywodraeth Cymru

1.9 Mae gwaredu gwastraff ymbelydrol yn fater a gafodd ei ddatganoli ac mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan yn y rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel (MRWS) ers ei dechrau yn 2001. Mae wedi ymrwymo i sicrhau diogelwch tymor hir gwastraffau ymbelydrol ac i weithredu fframwaith gwaredu priodol i anghenion Cymru.

1.10 Mae polisi presennol Llywodraeth Cymru yn cael ei nodi yn y Papur Gwyn sy'n datgan fod Llywodraeth Cymru wedi dal yn ôl ei safbwynt ar waredu daearegol. Dywed y Papur Gwyn, pe bai cymuned yng Nghymru yn dymuno datgan diddordeb mewn lleoli CGD, dylai hysbysu Llywodraeth Cymru a fyddai, bryd hynny, yn ystyried ei safbwynt a'r mynegiant penodol o ddiddordeb.

1.11 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod yr ymgynghoriad hwn yn trafod materion y mae gan bobl Cymru bob hawl i gael eu hysbysu yn eu cylch ac y dylent gael cyfle i fynegi barn amdanynt. Mae Llywodraeth Cymru felly wedi cyhoeddi'r ddogfen ymgynghorol yng Nghymru. Er mwyn sicrhau fod diddordebau Cymru'n derbyn sylw wrth ddatblygu polisïau yn y maes hwn, bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i fod â rhan yn y rhaglen MRWS. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n glynu at ei pholisi o ddal yn ôl ei safbwynt ynghylch gwaredu daearegol ac felly nid yw'n cadarnhau y bydd yn cefnogi gweithredu yng Nghymru yn y dyfodol y cynigion a geir yn y papur ymgynghorol hwn, na mabwysiadu polisïau cyson â'r cynigion hynny.

### Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

1.12 Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn gyfrifol am sicrhau nad yw unrhyw CGD arfaethedig ar gyfer gwastraff ymbelydrol actifedd uwch yn cael effaith niweidiol ar amgylchedd, iechyd na diogelwch Gogledd Iwerddon. Mae Gogledd Iwerddon yn parhau i gefnogi'r rhaglen MRWS a amlinellwyd yn y Papur Gwyn, gan gydnabod ei fod er lles gorau Gogledd Iwerddon i wastraff ymbelydrol actifedd uwch y Deyrnas Unedig gael ei reoli yn y dull mwyaf diogel a phriodol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn gweithredu polisi o ddal yn ôl ei safbwynt ynghylch gwaredu daearegol ac felly nid yw'n cadarnhau y bydd yn cefnogi gweithredu yn y dyfodol yng Ngogledd Iwerddon y cynigion a geir yn yr ymgynghoriad hwn, na mabwysiadu polisïau sy'n gyson â'r cynigion hynny.

[2] *'Managing Our Radioactive Waste Safely – CoRWM's recommendations to Government',* Gorffennaf 2006 http://bit.ly/15R4QpL

### Llywodraeth yr Alban

1.13 Er na chafodd y Papur Gwyn ei noddi ganddynt, mae Llywodraeth yr Alban yn dal yn ymrwymedig i ddelio'n gyfrifol â gwastraff ymbelydrol sy'n deillio o'r Alban. Ar 20 Ionawr 2011, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban Bolisi Gwastraff Actifedd Uwch yr Alban[3]. Polisi Llywodraeth yr Alban yw y dylai rheolaeth gwastraff ymbelydrol actifedd uwch dros dymor hir ddigwydd mewn cyfleusterau agos i'r wyneb. Dylid lleoli cyfleusterau mor agos â phosibl i'r safleoedd lle cynhyrchir y gwastraff. Er nad yw Llywodraeth yr Alban yn cefnogi gwaredu daearegol yn ddwfn dan ddaear mae'n parhau, fel Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, i gefnogi rhaglen storio dros dro rymus a rhaglen ymchwil a datblygiad barhaus.

## Cefndir Polisi'r Deyrnas Unedig

1.14 Crëir gwastraffau ymbelydrol actifedd uwch o ganlyniad i gynhyrchu trydan mewn gorsafoedd niwclear, o'r gwaith cysylltiedig o gynhyrchu a phrosesu tanwydd niwclear, o ddefnyddio deunydd ymbelydrol mewn diwydiant, meddygaeth ac ymchwil, ac o raglenni niwclear cysylltiedig ag amddiffyn.

1.15 Fel un o'r arloeswyr technoleg niwclear, mae'r DU wedi cronni etifeddiaeth sylweddol o wastraff a defnyddiau ymbelydrol actifedd uwch. Mae peth deunydd ymbelydrol eisoes yn wastraff ac wedi ei ddodi mewn storfeydd dros dro ar safleoedd niwclear ym mhob rhan o'r DU. Fodd bynnag, dros gyfnod o oddeutu canrif i'r dyfodol bydd llawer o ddeunydd ymbelydrol yn troi'n wastraff wrth i gyfleusterau presennol ddod i ddiwedd eu hoes a chael eu datgomisiynu a'u glanhau'n ddiogel dan warchodaeth gadarn.

1.16 Pwrpas gwaredu daearegol yw ynysu a dal gwastraff ymbelydrol actifedd uwch yn barhaol a dwfn dan ddaear tra bo'r ymbelydredd yn dadfeilio. Mae hynny'n sicrhau nad oes meintiau niweidiol o ymbelydredd yn cyrraedd yr wyneb ac mae hefyd yn cynnig y lefel uchaf ymarferol o warchodaeth dros y gwastraff. Cyflawnir hyn heb yr angen am ymyriad dynol parhaus. Er bod storio yn ddull effeithiol o reoli gwastraff yn y tymor byr i ganolig, byddai angen ymyriad dynol parhaus (i fonitro a chynnal a chadw'r gwastraff a'i gyfleusterau storio) am y cannoedd o filoedd o flynyddoedd a gymer i'r ymbelydredd yn y gwastraff ddadfeilio. Ni chredir y byddai'n briodol trosglwyddo baich rheolaeth actif o'r fath i genedlaethau'r dyfodol. Ac felly ymrwymodd Llywodraeth y DU i weithredu ateb diogel a pharhaol drwy warediad daearegol cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

1.17 Mae bwrw 'mlaen â gwaredu daearegol hefyd yn allwedd i adfer safleoedd niwclear presennol a'u rhyddhau at bwrpasau eraill drwy alluogi gwaredu'n ddiogel y gwastraffau actifedd uwch a ddeillia o ddatgomisiynu a glanhau, yn ogystal â'r gwastraffau sydd ar hyn o bryd yn cael eu storio dros dro ar safleoedd niwclear, yn cynnwys Sellafield. Fodd bynnag, mae'n bwysig gwneud cynnydd amserol gyda'r dasg o adfer a phrosesu gwastraff o

[3] http://bit.ly/13LFV3c

gyfleusterau a etifeddwyd fel y gellir ei storio'n ddiogel nes bydd cyfleuster CGD ar gael.

1.18 I egluro'r pwynt yma, bydd yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (yr NDA) yn gwario cyfanswm o £3.2bn yn y flwyddyn ariannol gyfredol (2013/14) ar lanhau etifeddiaeth niwclear Prydain, gyda mwy na hanner y swm yma (£1.7bn) yn cael ei wario ar leihau peryglon yn Sellafield. Mae'r lefelau gwariant yma, sy'n uwch nag erioed, yn adlewyrchu ymrwymiad di-baid gan Lywodraeth y DU i lanhau etifeddiaeth niwclear Prydain yn Sellafield a mannau eraill.

1.19 Mae adalw deunyddiau o'r cyfleusterau etifeddiaeth yn Sellafield i'w gosod mewn storfa interim ddiogel yn flaenoriaeth genedlaethol, a bydd yr angen hwnnw'n parhau cyhyd ag y cymer i adnabod safle ac adeiladu cyfleuster CGD. Dylid gweld y broses hon fel rhagflaenydd angenrheidiol i CGD yn hytrach na dewis arall, am y rhesymau a nodwyd uchod.

1.20 Yn 2001, dechreuodd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig y rhaglen MRWS gyda'r bwriad o ddelio â rheolaeth gwastraff ymbelydrol yn y tymor hir[4].

1.21 Yng Ngorffennaf 2006 argymhellodd CoRWM[5] mai gwaredu daearegol, ynghyd â'i storio cyn hynny mewn lle diogel a chadarn, oedd y ffordd orau o reoli etifeddiaeth gwastraffau ymbelydrol actifedd uwch y DU yn y tymor hir. Tasg wreiddiol CoRWM oedd gwneud argymhellion a fyddai nid yn unig yn cynnig diogelwch a gwarchodaeth gadarn, ond hefyd yn dderbyniol o safbwynt amgylcheddol a chymdeithasol, am gost na fyddai'n anghymesur. Dywedodd CoRWM mai'r nod ddylai fod symud ymlaen gyda gwaredu cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol ac yn gyson â'r angen i feithrin a chadw hyder y cyhoedd.

1.22 Yn Hydref 2006, cyhoeddodd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ymateb[6] i argymhellion CoRWM, yn egluro mai gwaredu daearegol, ynghyd â'i storio cyn hynny mewn lle diogel a chadarn, ddylai fod y ffordd o reoli gwastraff ymbelydrol actifedd uwch y DU yn y tymor hir.

1.23 Yn 2006, roedd ymateb y Llywodraeth yn derbyn yr angen am ymchwil a datblygiad parhaus i sicrhau fod y rhaglen waredu daearegol yn cael ei gweithredu yn y ffordd orau bosibl, gan storio gwastraff ymbelydrol yn ddiogel a chadarn yn y cyfamser. Mae gan yr NDA swyddogaeth ategol dan Ddeddf Ynni 2004 i gynnal ymchwil i faterion perthnasol i'r swyddogaethau a roddwyd iddo drwy gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol dan Ddeddf Ynni 2004. Mae felly'n cynnal ymchwil i faterion yn ymwneud â dylunio, adeiladu a rhedeg cyfleusterau'r dyfodol ar gyfer storio gwastraff lefel canolig a gwastraff lefel uwch. Yn y pen draw, bydd raid i ymchwil a datblygiad o'r fath gefnogi paratoad achos diogelwch sy'n bodloni'r gofynion rheoleiddio.

---

[4] *'Managing Radioactive Waste Safely: Proposals for Developing a Policy for Managing Solid Radioactive Waste in the UK'*, Medi 2001 http://bit.ly/15Rum8m

[5] *'Managing our Radioactive Waste Safely – CoRWM's Recommendations to Government'*, Gorffennaf 2006. CORWM Document 700. http://bit.ly/15R4QpL

NB – Adnewyddodd CoRWM yr ymrwymiad hwn i waredu daearegol yn Adroddiad Blynyddol 2013.

[6] *'Response to the Report and Recommendations from the Committee on Radioactive Waste Management (CoRWM), UK Government and the devolved administrations'*, Hydref 2006 (PB 12303)

1.24 Nododd y Llywodraeth hefyd y pwynt a godwyd gan CoRWM, sef y gallai dewisiadau tymor hir eraill ddod i'r amlwg yn y dyfodol fel ffyrdd gwahanol ymarferol o ddelio â rhai gwastraffau. Yn unol â'r safbwynt hwn, mae'r NDA yn edrych yn briodol tua'r gorwel, yn cynnwys dysgu oddi wrth, ac ymgysylltu â, rhaglenni tramor i weld a oes datblygiadau a allai wella rheolaeth hirdymor rhai o wastraffau ymbelydrol actifedd uwch y DU. Ar hyn o bryd ni chanfuwyd unrhyw ddewis arall credadwy a allai dderbyn pob categori o wastraff y bwriedir ar hyn o bryd ei waredu mewn CGD.

1.25 Ar 25 Mehefin 2007, cyhoeddodd Llywodraeth y DU, ynghyd â gweinyddiaethau datganoledig Cymru a Gogledd Iwerddon ddogfen ymgynghorol MRWS[7]. Ni chafodd ymgynghoriad MRWS 2007 ei noddi gan Lywodraeth yr Alban (gweler paragraff 1.13). Caeodd yr ymgynghoriad ar 2 Tachwedd 2007. Cyhoeddwyd Crynodeb a Dadansoddiad o'r Ymatebion ar 10 Ionawr 2008[8] a chymerwyd hyn i ystyriaeth wrth ddatblygu'r Papur Gwyn (gweler paragraff 1.38).


## Gwaredu daearegol

1.26 Mae gwaredu daearegol yn golygu ynysu gwastraff ymbelydrol yn ddwfn tu mewn i gyfleuster dan ddaear mewn man lle mae ffurfiant y creigiau'n addas. Mae hyn yn sicrhau na fydd meintiau niweidiol o ymbelydredd fyth yn cyrraedd yr wyneb. Mae'n ddull aml-rwystr o weithredu, yn seiliedig ar osod pecynnau gwastraff mewn twneli pwrpasol rhwng 200m a 1000m dan ddaear i'w gwarchod rhag digwyddiadau a achosir gan ddyn neu ddigwyddiadau naturiol (e.e. llifogydd, erydiad arfordirol, daeargrynfeydd neu derfysgaeth) sy'n bennaf yn effeithio ar yr wyneb.


[7] '*Managing Radioactive Waste Safely: A Framework for Implementing Geological Disposal*', 25 Mehefin 2007 http://bit.ly/18UaEcX

[8] '*Summary and Analysis of Responses to the Consultation on Managing Radioactive Waste Safely: A Framework for Implementing Geological Disposal*', 10 Ionawr 2008 http://bit.ly/15W12wm

**Ffigwr 2 –** Trawslun yn dangos dyfnder CGD




**Ffigwr 3 –** Maint posibl CGD



1.27 Mae gwaredu daearegol yn cynnig ateb diogel tymor hir i reoli gwastraff mewn ffordd nad yw'n dibynnu ar ymyriad dynol parhaus. Mae manteision gwaredu daearegol yn cynnwys:

- Sicrhau nad yw cenedlaethau'r dyfodol yn gorfod wynebu'r baich o reoli'r deunydd peryglus[9] hwn mewn ffordd actif;

[9] Gwahaniaethir rhwng y termau "deunydd peryglus" a "risg". "Deunydd peryglus" yw rhywbeth (e.e. gwrthrych, priodwedd sylwedd, neu weithgaredd) a allai achosi niwed. "Risg" yw siawns fod unigolyn, neu

- Dileu'r peryglon diogelwch a gwarchodaeth, a'r costau parhaus sy'n rhan annatod o orfod cynnal a chadw a gwarchod cyfleusterau storio ar yr wyneb y deunydd hwn a fydd yn beryglus am flynyddoedd lawer;

- Lleddfu'r risgiau cysylltiedig â newidiadau cymdeithasol, newidiadau hinsawdd neu ymosodiadau maleisus, y gallai unrhyw un ohonynt arwain at fethiant i reoli'r gwastraff yn effeithiol.

1.28 Mae gwaredu daearegol yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol fel y ffordd ddewisol o reoli gwastraff ymbelydrol actifedd uwch yn y tymor hir, gan warchod iechyd dynol a'r amgylchedd naturiol.

*1.29* Dywedodd Cyfarwyddeb Cyngor yr Undeb Ewropeaidd Gorffennaf 2011 (2011/70 Euratom[10]) "*Deep geological disposal represents the safest and most sustainable option as the end point of the management of high-level waste and spent fuels considered as waste[11].*"

1.30 Yn 2011 dywedodd yr Asiantaeth Ynni Niwclear (NEA) (asiantaeth arbenigol o fewn y Sefydliad Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd) *"there are no credible alternatives to geological disposal"*[12]. Gan ddwyn sylw at gonsensws rhyngwladol cryf mai gwaredu daearegol yw'r ffordd ddewisol o weithredu, dywed yr NEA hefyd fod gwaredu daearegol yn *"technically feasible; it can be made safe for current and future generations"*, a hefyd *"Whatever further technical advances may be gained, the need for geological disposal for some classes of waste will persist"*.

1.31 Yn unol â hyn mae Llywodraeth y DU yn parhau'n ymrwymedig i waredu daearegol yn y Deyrnas Unedig

1.32 Mater arall i'w ystyried yw adferadwyedd *(retrievability)* - hynny yw'r potensial i adfer pecynnau gwastraff o gyfleuster gwaredu rywbryd yn y dyfodol. Barn Llywodraeth y DU yw mai mater i'w benderfynu yn nes ymlaen yw'r cwestiwn o gadw cyfleuster gwaredu daearegol (neu gladdgelloedd o'i fewn) ar agor unwaith y daw gweithgareddau cyfleuster gwastraff i ben, mewn trafodaethau gyda'r rheoleiddwyr annibynnol a chymunedau lleol. Yn y cyfamser, gellir symud ymlaen gyda'r gwaith cynllunio, dylunio ac adeiladu mewn ffordd nad yw'n cau allan yr opsiwn adferadwyaeth.

## Gwirfoddoliaeth a phartneriaeth

1.33 Wrth dderbyn argymhelliad gwreiddiol CoRWM y dylid rheoli gwastraff ymbelydrol actifedd uwch drwy waredu daearegol, cytunodd Llywodraeth y DU

---

rywbeth gwerthfawr, yn cael ei effeithio'n niweidiol gan ddeunydd peryglus. Dywed y paragraff hwn fod gwaredu daearegol yn lleddfu neu ddileu risgiau drwy osod deunydd peryglus tu hwnt i gyrraedd.

[10] http://bit.ly/pAvyqQ

[11] Nid yw hyn yn effeithio ar bolisi'r Alban ar gyfer gwastraff actifedd uwch, nad yw'n ymwneud â Gwastraff Lefel Uchel (HLW) na gweddillion tanwydd.

[12] *'Geological Disposal of Radioactive Wastes: National Commitment, Local and Regional Involvement'*, 2011 http://bit.ly/19HfjBh

hefyd i archwilio sut y gall gweithredu ar sail gwirfoddoliaeth (hynny yw parodrwydd cymunedau lleol i gymryd rhan) a gweithredu mewn partneriaeth weithio'n ymarferol[13].

1.34 Daeth CoRWM i'r casgliad yn eu hadroddiad gwreiddiol[14] y dylid mabwysiadu proses lle byddai cymunedau'n gyfranogwyr bodlon ac yn gweithio mewn partneriaeth â chorff gweithredu. Sail y farn hon oedd eu hystyriaeth o raglenni llwyddiannus dramor a methiant blaenorol prosesau mwy rhagnodol a chaeedig yn y Deyrnas Unedig a thramor. Roedd CoRWM o'r farn y gallai proses seiliedig ar barodrwydd i gymryd rhan fod â'r potensial i sicrhau tegwch ac effeithlonrwydd a chynyddu'r siawns o gwblhau'r broses yn llwyddiannus.

1.35 Mewn egwyddor, dylai gweithredu ar sail parodrwydd i gymryd rhan, gyda "Hawl Tynnu'n Ôl", olygu mai dim ond ar gyflymder cyfforddus i gymunedau lleol y symudir ymlaen. Fe ddylai hefyd orfodi corff gweithredu i ddelio â phryderon cymunedau lleol cyn y gellir gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol. Dylai'r ddisgyblaeth hon wella ansawdd a derbynioldeb y cynigion terfynol ar gyfer CGD yn yr ardal dan sylw lle bynnag y bo.

1.36 Dyma yw profiad cyson rhaglenni tramor. Mae'r rhaglenni a seiliwyd ar ymgysylltu â chymunedau lleol yn parhau i wneud cynnydd mewn ffordd dderbyniol (e.e. yn Sweden). Lle teimlir fod prosesau'n golygu gorfodaeth ar gymunedau anfodlon, maent wedi methu (e.e. y datblygiad CGD cyntaf ym Mynydd Yucca yn Unol Daleithiau'r America. Yn dilyn hynny argymhellodd y *Blue Ribbon Commission on America's Nuclear Future*[15] y dylid mabwysiadu dull newydd, seiliedig ar gydsyniad, ar gyfer dewis safleoedd CGD).

1.37 Datganodd y Papur Gwyn, os canfyddir ar ryw bwynt yn y dyfodol nad yw gwirfoddoliaeth a phartneriaeth yn debygol o weithio, fod Llywodraeth y DU yn cadw'r hawl i archwilio ffyrdd eraill o weithredu. Mae'r sefyllfa honno'n parhau. Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen ymgynghori hon yn delio â hynny nac yn archwilio dewisiadau eraill heblaw gwirfoddoliaeth.

## Fframwaith Llywodraeth y DU ar gyfer gweithredu Gwaredu Daearegol

1.38 Cyhoeddwyd y Papur Gwyn[16] ym Mehefin 2008. Ynddo roedd crynodeb lefel uchel o'r gwastraff i'w reoli drwy waredu daearegol, y ffordd y byddai Llywodraeth y DU yn paratoi a chynllunio ar gyfer gwaredu daearegol, y dull rheoleiddio a chraffu annibynnol a'r broses dewis safle seiliedig ar wirfoddoliaeth a phartneriaeth (proses ychwanegol i'r prosesau cynllunio a rheoleiddio angenrheidiol ar gyfer datblygu CGD).

---

[13] '*Response to the Report and Recommendations from the Committee on Radioactive Waste Management (CoRWM)',* Hydref 2006 (PB 12303)

[14] *'Managing our Radioactive Waste Safely – CoRWM's Recommendations to Government'*, July 2006 http://bit.ly/15R4Qpl

[15] http://bit.ly/U2DVPQ

[16] *'Managing Radioactive Waste Safely – A Framework for Implementing Geological Disposal'*, Mehefin 2008 http://bit.ly/13LFztm

1.39 Mae gwaredu daearegol yn parhau i fod yn bolisi Llywodraeth y DU ac felly dim ond elfennau'r broses dewis safle o fewn y Papur Gwyn yr ymgynghorir yn eu cylch yn y ddogfen hon.

1.40 Yn wreiddiol roedd y broses dewis safle'n digwydd fesul cam er mwyn caniatáu i bawb cysylltiedig gymryd stoc ym mhob cyfnod cyn penderfynu symud ymlaen neu beidio i'r cam nesaf. Datblygwyd y dull hwn yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ac ar ôl ystyried cynseiliau rhyngwladol[17].

1.41 Eglurodd y Papur Gwyn mai'r canlynol fyddai'r chwaraewyr allweddol yn y broses dewis safle:

- **Llywodraeth y DU** - yn gyfrifol am y polisi cyffredinol ar gyfer gwaredu daearegol, y penderfyniadau terfynol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau gwireddu amcanion y rhaglen;

- Yr **Awdurdod Datgomisiynu Niwclear** (**NDA**) – ac yn benodol ei **Gyfarwyddiaeth Rheoli Gwastraff Ymbelydrol (RWMD**) – y corff gweithredu gyda chyfrifoldeb am ddarparu CGD;

- Mae'n bosibl y bydd **Cymunedau** am fynegi diddordeb mewn bod yn lleoliad CGD - gyda **llywodraeth leol** yn gweithredu fel y "Corff Penderfynu" parthed bod yn gymuned leoli safle neu beidio (h.y. y gymuned lle caiff cyfleuster o'r fath ei adeiladu). Bydd Llywodraeth y DU yn talu'r costau a ddaw i'w rhan wrth ymwneud â'r broses dewis safle, trwy ddarparu "Pecyn Ymgysylltu";

- **Rheoleiddwyr Annibynnol** – yn gyfrifol am sicrhau rheoleiddio cadarn ac annibynnol y cyfrifoldebau statudol ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a safonau diogelwch, seciwriti ac amgylcheddol ar y lefelau cenedlaethol, Undeb Ewropeaidd a rhyngwladol;

- **Committee on Radioactive Waste Management (CoRWM)** – sy'n craffu a rhoi cyngor annibynnol i'r Llywodraeth am gynlluniau a rhaglenni gweithredu gwaredu daearegol.

1.42 Gellir crynhoi'r broses dewis safle a amlinellwyd yn y Papur Gwyn fel a ganlyn:

- **Cyfnod 1: Mynegi Diddordeb** – Pan lansiwyd y Papur Gwyn, ysgrifennodd y Department of the Environment, Food and Rural Affairs (Defra) at awdurdodau lleol yn Lloegr yn eu gwahodd i fynegi diddordeb mewn cynnal trafodaethau, heb unrhyw ymrwymiad i fod yn lleoliad CGD rywbryd yn y dyfodol. Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at awdurdodau lleol yng Nghymru yn dwyn eu sylw at gynigion y Papur Gwyn.

[17] *'Stepwise Approach to Decision Making for Long-term Radioactive Waste Management: Experience, Issues and Guiding Principles'*, 2004 http://bit.ly/14LjeJZ

- **Cyfnod 2: Gwaith dechreuol i hepgor ardaloedd anaddas**[18] - Unwaith y byddai awdurdod lleol yn mynegi diddordeb gofynnid i Arolwg Daearegol Prydain [British Geological Survey – BGS][19] wneud prawf anaddasrwydd is-wyneb ("sub-surface unsuitability test") yn yr ardal. Byddai hyn yn dileu ardaloedd a oedd yn amlwg yn anaddas gan osgoi gwaith pellach diangen.

- **Cyfnod 3: Ystyriaeth gymunedol yn arwain at Benderfyniad i Gymryd Rhan** – yn cyfateb i'r cyfnod pryd y byddai'r Corff Penderfynu Lleol yn penderfynu a ddymunai ymrwymo'n ffurfiol neu beidio i gymryd rhan yn y broses o ganfod lleoliad (ond heb ymrwymo i weithredu fel lleoliad CGD). Roedd Cyfnod 3 yn rhedeg yn gyfochrog â Chyfnod 2, er y byddai unrhyw Benderfyniad i Gymryd Rhan ar yr amod na ddeuai Cyfnod 2 i'r casgliad bod yr ardal yn anaddas, ac felly na ddylid ei hystyried. Yn dilyn y Penderfyniad hwn i Gymryd Rhan, disgwyliai Llywodraeth y DU y byddai Partneriaeth Leoli Gymunedol ("Community Siting Partnership") yn cael ei sefydlu, sef partneriaeth o ddiddordebau cymunedol lleol a fforwm i'r gymuned a fynegodd ddiddordeb a'r RWMD gyfnewid gwybodaeth a safbwyntiau.

- **Cyfnod 4: Astudiaethau desg yn yr ardaloedd oedd yn cymryd rhan -** Yn y cyfnod hwn byddid yn cynnal asesiadau desg manylach yn canolbwyntio ar addasrwydd y safle neu safleoedd dan sylw, gyda'r broses yn cael ei goruchwylio gan y Bartneriaeth Leoli Gymunedol. Cai'r asesiad ei adolygu gan reoleiddwyr annibynnol a'i graffu'n annibynnol gan CoRWM. Ar sail yr asesiadau hyn, ac argymhellion y Bartneriaeth Leoli Gymunedol, byddai'r Corff Penderfynu Lleol yn penderfynu symud ymlaen neu beidio i'r cam nesaf. Byddai'r Llywodraeth Ganol wedyn yn penderfynu ar un neu fwy o ddarpar safleoedd i'w symud ymlaen i'r cyfnod nesaf.

- **Cyfnod 5: Archwiliadau ar yr wyneb o'r mannau a oedd yn dal dan ystyriaeth gyda'r bwriad o adnabod y safle dewisol -** Byddai'r cyfnod hwn wedi golygu fod RWMD yn gofyn am ganiatâd cynllunio i gynnal archwiliadau ar yr wyneb o'r safle neu safleoedd a oedd yn dal dan ystyriaeth, a'r gwaith hwnnw'n cynnwys arolygon seismig a drilio tyllau archwilio. Ar sail yr asesiadau pellach hyn, ac argymhellion y Bartneriaeth Leoli Gymunedol, byddai'r gymuned yn penderfynu symud ymlaen neu beidio i gyfnod olaf y broses dewis safle. Hwn fyddai'r siawns olaf i'r gymuned weithredu ei Hawl Tynnu'n Ôl o'r broses dewis safle.

- **Cyfnod 6: Gwaith dan ddaear** – gwaith ymchwil tanddaearol (i gadarnhau addasrwydd y safle) a dechrau adeiladu'r CGD. Dywedodd y Papur Gwyn, er mwyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer y CGD ei hun, fod Llywodraeth y

---

[18] Datblygwyd y meini prawf dechreuol ar gyfer sgrinio is-wyneb gan ddau grŵp o arbenigwyr, sef y "Criteria Proposal Group" a'r "Criteria Review Panel", ac ymgynghorwyd yn gyhoeddus yn eu cylch. Gweler *'Managing Radioactive Waste Safely – A Framework for Implementing Geological Disposal'* Annex B, Mehefin 2008, http://bit.ly/13LFztm

[19] Arolwg Daearegol Prydain -British Geological Survey (BGS) yw canolfan genedlaethol y DU ar gyfer gwybodaeth ac arbenigedd gwyddorau'r ddaear. Mae'n cynnig cyngor arbenigol diduedd am bob agwedd ar ddaeareg.

DU yn tueddu i fod o blaid[20] edrych tuag at y drefn *Nationally Significant Infrastructure Planning* a sefydlwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008 (os oedd CGD i'w ddatblygu yn Lloegr)[21] ond nid ymrwymodd i'r ffordd hon o weithredu. O'r cyfnod hwn y byddai'r Pecyn Buddiannau Cymunedol ("Community Benefits Package") yn daladwy er mwyn cydnabod y gwasanaeth hanfodol yr oedd yn gymuned yn ei roi i'r genedl.

1.43 Yn yr adrannau sy'n dilyn, trafodwn y profiad ymarferol o weithredu rhannau cyntaf y broses hon a chyflwynwn gynigion ar gyfer newidiadau a fydd yn adlewyrchu adborth rhanddeiliaid a'r gwersi a ddysgwyd.

## Gweithrediad y broses lleoli cyfleuster Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel (MRWS)

1.44 Yn 2008-9, derbyniwyd tri Mynegiant Diddordeb ffurfiol gan Lywodraeth y DU oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Allerdale, Cyngor Bwrdeistref Copeland a Chyngor Sir Cumbria (ar gyfer ardaloedd Cyngor Bwrdeistref Allerdale a Chyngor Bwrdeistref Copeland). Gelwir y cynghorau hyn gyda'i gilydd yn y ddogfen hon yn "gynghorau gorllewin Cumbria".

1.45 Yn 2012, holodd Cyngor Dosbarth Shepway yng Nghaint farn trigolion lleol am y posibilrwydd o Fynegi Diddordeb yn y broses o ddewis lleoliad ond yn y diwedd penderfynodd beidio cymryd rhan.

1.46 Dilynodd cynghorau gorllewin Cumbria rai cyfnodau o'r broses a ddisgrifiwyd yn y Papur Gwyn, gan gyrraedd y pwynt lle'r oedd angen Penderfyniad ffurfiol i Gymryd Rhan cyn mynd ymhellach.

1.47 Ar 30 Ionawr 2013, penderfynodd cynghorau gorllewin Cumbria yn unigol a oeddent am gymryd rhan yng nghyfnod nesaf y broses dewis safle. Nid penderfyniad ydoedd ynghylch derbyn lleoliad CGD, ond yn hytrach ynghylch parhau neu beidio i adnabod ac asesu safleoedd posibl yng ngorllewin Cumbria. Pleidleisiodd Cyngor Bwrdeistref Allerdale a Chyngor Bwrdeistref Copeland o blaid symud ymlaen. Pleidleisiodd Cyngor Sir Cumbria yn erbyn.

1.48 Gwnaed cytundeb cynharach[22] (na chafodd ei ragweld na'i ragnodi gan y broses dewis safle a amlinellwyd yn y Papur Gwyn) rhwng yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) a chynghorau yng ngorllewin Cumbria ynghylch sut y byddai'r broses dewis safle MRWS yn gweithredu yng ngorllewin Cumbria. Roedd y trefniant hwnnw'n gofyn am gytundeb "tri golau gwyrdd" ar y lefelau Cyngor Bwrdeistref, Cyngor Sir a Llywodraeth Ganol er mwyn i'r broses symud yn ei blaen. Ac felly, daeth y broses leoli gyfredol i ben yn dilyn penderfyniad Cyngor Sir Cumbria.

---

[20] *'Managing Radioactive Waste Safely – A Framework for Implementing Geological Disposal'*, Mehefin 2008 http://bit.ly/13LFztm paragraff 5.30

[21] Gan fod cynllunio'n fater a ddatganolwyd, eglurodd y Papur Gwyn hefyd fod Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r broses o roi caniatâd ar gyfer CGD yng Nghymru ddigwydd o fewn y gyfundrefn caniatadau statudol a fodolai eisoes ac y byddai'r Gwasanaeth Cynllunio yng Ngogledd Iwerddon yn ystyried oblygiadau'r newididau cynllunio arfaethedig (bryd hynny) yn Lloegr.

[22] http://bit.ly/15RxiBQ

1.49 Mae Llywodraeth y DU yn dal o blaid proses o leoli CGD sy'n seiliedig ar wirfoddoliaeth (h.y. parodrwydd cymunedau lleol i gymryd rhan) a gweithio mewn partneriaeth.

1.50 Mae tystiolaeth o dramor yn dangos y gall y broses hon weithio, ac mae rhaglenni gwaredu gwastraff tebyg a seiliwyd ar yr egwyddorion hyn yn gwneud cynnydd da mewn gwledydd fel Canada, Y Ffindir a Sweden.

1.51 Mae'r ffaith fod dau awdurdod lleol yng ngorllewin Cumbria wedi pleidleisio o blaid parhau i chwilio am safle posibl ar gyfer CGD yn dangos fod cymunedau'n cydnabod y buddiannau sylweddol sy'n gysylltiedig â bod yn lleoliad cyfleuster o'r fath – o ran creu gwaith a'r buddiannau ehangach cysylltiedig â'i datblygiadau.

1.52 Mewn Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog ar 31 Ionawr 2013[23], cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd fod Llywodraeth y DU yn dal wedi ymrwymo i'r polisi gwaredu daearegol, ond cyhoeddodd y byddai'r Llywodraeth hefyd yn manteisio ar y cyfle i bwyso a mesur y profiad gyda'r broses leoli hyd yma. Gwnaed yn glir yn y datganiad hwnnw y byddai'n rhaid ymgynghori ynghylch unrhyw newidiadau i'r broses leoli gyfredol (fel y'i diffiniwyd yn y Papur Gwyn).

## Llunio'r ddogfen ymgynghori hon

1.53 Ystyriodd Llywodraeth y DU pa wersi y gellir eu dysgu oddi wrth weithrediad y broses leoli ers 2008 gan adeiladu ar y trafodaethau a gynhaliwyd â'r rhai a fu'n gysylltiedig hyd yma.

1.54 I gefnogi'r ystyriaeth hon, ym Mai 2013, cyhoeddodd Llywodraeth y DU "Gais am Dystiolaeth" er mwyn rhoi cyfle i amrediad ehangach o randdeiliaid gyfrannu at yr adolygiad o'r broses leoli a sut i'w symud ymlaen.

1.55 Y cwestiynau a ofynnwyd yn y Cais am Dystiolaeth hwn oedd -

- **Yn eich barn chi, pa agweddau o'r broses leoli yn y Papur Gwyn MRWS y gellir eu gwella, a sut?**
- **Beth ellir ei wneud i ddenu cymunedau i gymryd rhan yn y broses o leoli MRWS?**
- **Pa wybodaeth yn eich barn chi fyddai o gymorth i gymunedau ymwneud â'r broses o leoli MRWS?**

1.56 Bu'r dystiolaeth a gasglwyd yn y cyfnod yma o gymorth i ffurfio cynigion y ddogfen ymgynghori hon. Mae crynodeb o'r pwyntiau allweddol a godwyd[24] ym Mlwch 1 isod.

---

[23] http://bit.ly/WjlgjK
[24] Mae'r ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth i'w gweld yn http://bit.ly/10lBf1Y

**Blwch 1 – Negeseuon allweddol yr adolygiad**

- Angen gwybodaeth gynharach am y ddaeareg – gyda nifer o ymatebwyr yn galw am sgrinio daearegol cyn gwirfoddoli
- Angen eglurder ynghylch maint, natur ac amseriad y buddiannau cymunedol
- Angen eglurder ynghylch natur ac amseriad yr Hawl Tynnu'n Ôl
- Cynigiwyd y dylid cyflwyno cyrff newydd annibynnol, naill i adolygu'r broses gan gymheiriaid neu i wneud penderfyniadau
- Angen darparu gwybodaeth ynghylch CGD yn gynt, a mwy o eglurder ynghylch y broses
- Cefnogaeth i wirfoddoliaeth fel y sail gywir ar gyfer y broses leoli
- Diffyg ymddiriedaeth yn broses leoli bresennol, DECC a/neu RWMD
- Angen i'r broses benderfynu fod yn gliriach
- Gellid gwneud y cyfleusterau storio presennol yn Sellafield yn ddiogelach a dylai cynlluniau ar gyfer storfa dros dro estynedig fynd yn eu blaen ochr yn ochr â CGD.
- Angen mwy o eglurder ynghylch y rhestr o'r gwastraff a waredir mewn CGD.

1.57 Yng ngoleuni'r dystiolaeth a gasglwyd yn y cyfnod yma, mae'r ddogfen ymgynghori hon yn edrych ar agweddau o'r broses leoli y gellid eu newid neu eu gwella, er mwyn helpu cymunedau i gyfranogi'n fwy hyderus, ac yn y pen draw cynorthwyo i ganfod safle ar gyfer CGD. Wrth lunio'i chynigion mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cadw mewn cof ddeddfwriaeth a chonfensiynau perthnasol y DU, yr Undeb Ewropeaidd a rhyngwladol a phrofiad rhyngwladol o weithredu cyfleusterau gwaredu daearegol.

1.58 Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn canolbwyntio ar gynigion ar gyfer ailymweld â'r broses bresennol o ddewis safle. Nid yw'n ffocysu ar y mecanweithiau penodol y gellid eu defnyddio i weithredu pob elfen o'r broses newydd, megis deddfwriaeth sylfaenol, datganiadau polisi newydd, diweddaru canllawiau a ffyrdd eraill o weithredu. Datblygir y rhain yn unol â chynnwys unrhyw broses leoli ddiwygiedig a ddeillia o'r ymarferiad ymgynghori hwn.

1.59 Drwy gyfrwng y ddogfen ymgynghori hon, mae Llywodraeth y DU yn gwahodd sylwadau ynglŷn â'r cynigion ar gyfer newid y drefn bresennol o ddewis safle. Mae cwestiynau penodol wedi eu cynnwys i chi eu hystyried mewn gwahanol rannau o'r ddogfen ac fe'u rhestrir gyda'i gilydd ym Mhennod 5. Yno hefyd dywedir sut i ymateb i'r ymgynghoriad a chynhwyswyd gwybodaeth am gamau nesaf y broses.

# Pennod 2 – Penderfyniadau a Swyddogaethau

2.1 Gadawyd yn agored sawl agwedd allweddol o'r broses leoli bresennol, fel y'u diffiniwyd yn y Papur Gwyn, i'w penderfynu a'u cytuno'n ddiweddarach gan y rhai a gymerai ran. Y bwriad oedd caniatáu gymaint â phosibl o ystwythder lleol ond, yn ymarferol, arweiniodd hyn at ansicrwydd.

2.2 Credwn y gallai **proses wneud penderfyniadau** mwy trylwyr a diamwys, gyda **swyddogaethau a chyfrifoldebau a ddiffiniwyd yn glir**, fod â rhan allweddol o alluogi cyfranogiad mwy effeithiol.

2.3 Mae'r Bennod hon yn cynnwys barn ddechreuol Llywodraeth y DU ynghylch sut y gellid diwygio a gwella'r broses dewis safle.

## Gwneud penderfyniadau fel rhan o'r broses dewis safle

### Yr achos dros newid

2.4 Pan lansiwyd y Papur Gwyn, nid oedd manylion penodol y broses dewis safle wedi cael eu profi'n ymarferol yn y DU, naill ai yn y maes rheoli gwastraff ymbelydrol neu mewn perthynas â datblygu prosiectau seilwaith mawr eraill.

2.5 Er bod disgwyliad (yn seiliedig ar y dystiolaeth a oedd ar gael) y byddai proses o weithredu fesul cam gyda phwyntiau penderfynu clir a Hawl Tynnu'n Ôl o gymorth i adnabod safle, mae'r profiad o weithredu'r broses hyd yma'n awgrymu na weithiodd cystal ag a fwriadwyd yn wreiddiol.

2.6 Mae nifer o'r ymatebwyr i'r Cais am Dystiolaeth, yn cynnwys rhai mewn ardaloedd a gymrodd ran yn y trefniadau dewis safle hyd yma, wedi mynegi awydd i dderbyn gwybodaeth yn gynharach yn y broses (h.y. cyn gwneud unrhyw benderfyniadau).

2.7 Ni ddiffiniodd y Papur Gwyn y swyddogaethau penderfynu ar y lefel leol[25]. Roedd hyn yn fwriadol, er mwyn galluogi cymunedau lleol i siapio'r broses benderfynu eu hunain. Mae'r profiad yn Cumbria wedi amlygu'r anawsterau a gafodd cyrff penderfynu lleol wrth geisio dod i gytundeb ynghylch ar ba lefel y dylid gwneud penderfyniadau a bu'n rhaid cael eglurder ynghylch rhai materion fesul achos unigol drwy ymyrraeth uniongyrchol gan y Gweinidog[26].

2.8 Dywedodd y Papur Gwyn *"Before making an Expression of Interest, Government suggests that the local authority should have canvassed opinion"*, gan wneud hynny drwy fforymau a fodolai eisoes neu gyfarfodydd a alwyd yn benodol gyda phartneriaid lleol[27]. Yn ymarferol gosododd hyn faich ar awdurdodau lleol, ynghyd â diffyg eglurder ynghylch beth a ddisgwylid, a

[25] *'Managing Radioactive Waste Safely – A Framework for Implementing Geological Disposal'*, Mehefin 2008 http://bit.ly/13LFztm
[26] _7 http://bit.ly/18bKB5Y Tachwedd 2011
[27] *'Managing Radioactive Waste Safely – A Framework for Implementing Geological Disposal'*, June 2008, paragraph 6.18 http://bit.ly/13LFztm

ddatblygodd yn rhwystr rhag iddynt ymuno â'r broses leoli. Cafodd y gofynion eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol mewn gwahanol lefydd gan arwain at ddisgwyliadau anghymarus ac anhawster ymarferol i gynghorau a oedd yn ceisio ymgysylltu â'r cyhoedd ynglŷn â'r manylion, cyn bod unrhyw wybodaeth fanwl ar gael iddynt. Ymhellach, gan nad oedd y polisi dewis safle cyfredol yn addo y byddai arian cyfranogiad cymunedol ar gael tan *ar ôl* i gymuned ymwneud yn ffurfiol â'r broses, rhaid oedd i'r cyngor/cynghorau lleol eu hunain gwrdd â chost canfod barn eu trigolion. Roedd hyn yn arbennig o broblemus i'r cynghorau llai lle byddai'r costau yma'n gyfran cymharol fawr o gyfanswm eu cyllideb flynyddol.

2.9 Roedd cynghorau gorllewin Cumbria yn pryderu nad oedd Llywodraeth y DU wedi pasio deddfwriaeth yn gwarantu Hawl Tynnu'n Ôl o'r broses dewis safle – cam y gellir ei gymryd ar hyn o bryd hyd at y pwynt y mae'r gwaith dan ddaear wedi ei raglennu i ddechrau[28]. Er enghraifft, y rheswm cyntaf a roddwyd gan arweinwyr Cyngor Sir Cumbria dros benderfynu peidio symud ymlaen i Gyfnod 4 y broses dewis safle oedd "*The Right of Withdrawal not enshrined in statute*"[29].

2.10 Ynghyd â'r pryderon ynghylch yr Hawl Tynnu'n Ôl, cyfeiriodd nifer o arweinwyr cymunedol at ymdeimlad o ddiffyg mandad democrataidd i ymwneud â'r broses dewis safle. Nodwyd hyn fel rheswm arall gan Gyngor Sir Cumbria i beidio symud ymlaen i Gyfnod 4 y broses dewis safle[30].

2.11 Yn wyneb y dystiolaeth hon, daeth Llywodraeth y DU i'r casgliad y gellid gwella sawl agwedd ar y broses benderfynu er mwyn helpu cymunedau i gyfranogi'n fwy hyderus yn y dyfodol.


## Y newid arfaethedig yn y dull gweithredu

2.12 Ar sail y dystiolaeth a ddisgrifir yn yr adran flaenorol, mae Llywodraeth y DU yn cynnig dull gweithredu diwygiedig ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â rhai agweddau o'r broses dewis safle. Caiff y cynigion hynny eu cynnwys yma er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd. Awgrymir dau gyfnod i'r broses, er mwyn galluogi cymunedau i ganfod mwy am y broses o ddewis safle CGD, gyda Hawl Tynnu'n Ôl parhaus. Gelwir y cyfnodau hyn yn "Cyfnod Dysgu" a "Cyfnod Ffocws" ac fe'u disgrifir ym mharagraffau 2.43 - 2.64. Bwriad y newidiadau arfaethedig yw gwneud y broses benderfynu yn gliriach a galluogi'r cyfranogwyr i dderbyn gwybodaeth briodol fel sail i'w penderfyniadau.

---

[28] ibid, adran 6.38
[29] Llythyr Cumbria County Council, 7 Chwefror 2013 http://bit.ly/WCpql5
[30] *Ibid.*

**Ffigwr 4: Amserlen a dilyniant arfaethedig y broses leoli ddiwygiedig –** sef y broses ymgysylltu â'r cyhoedd. Nid yw'n cynnwys gofynion eraill, fel y gwerthusiad amgylcheddol a chynaliadwyaeth, trwyddedu niwclear a chydsyniadau rheoleiddiol eraill. Cânt hwy eu crybwyll mewn rhan arall o'r ddogfen hon. Mae'n bwysig pwysleisio mai darluniadol yn unig yw'r amserlenni a nodir. Yn ymarferol, rhagwelwn y bydd y gwahanol elfennau'n cymryd cyn hired ag y bo angen i fodloni pawb cysylltiedig.




## Codi ymwybyddiaeth genedlaethol cyn gwahodd gwirfoddolwyr

2.13 Cynigir, wrth gyhoeddi ei bwriad i lansio unrhyw broses ddiwygiedig ar gyfer dewis safle, fod Llywodraeth y Du yn gwneud yn glir na ddechreuid y cyntaf o'r cyfnodau hyn yn ffurfiol, sef y Cyfnod Dysgu (gweler paragraffau 2.43 – 2.51) mewn unrhyw gymuned nes cyflwyno a gweithredu rhaglen genedlaethol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

2.14 Mae nifer o fanteision posibl i weithredu fel hyn -

- Helpu i sicrhau fod gan gymuned leol sydd â diddordeb mewn cymryd rhan, wrth archwilio oblygiadau bod yn safle CGD, yr amser i feddwl pa ystyriaethau y dymuna eu harchwilio yn y Cyfnod Dysgu cyn mynd ymhellach;

- Sicrhau gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyffredinol o'r ystyriaethau, ac arwain at drafodaeth fwy cytbwys a gwybodus am CGD ym mhob rhan o'r wlad;

- Darparu amser i gynrychiolwyr cymunedau sydd â diddordeb mewn canfod mwy am y mater hwn, a'u galluogi i ofyn cwestiynau i Lywodraeth y DU ac RWMD heb orfod rhuthro i ddod i benderfyniad buan.

2.15 Byddai hyd y cyfnod codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu hwn yn dibynnu ar lefel y diddordeb a'r ymgysylltiad a gyflawnwyd. Byddai Llywodraeth y DU yn cadw hyn dan ystyriaeth, ond rhagwelir y gallai barhau am hyd at flwyddyn wedi lansio'r broses leoli ddiwygiedig.

**Y 'cynnig'**

2.16 Fel rhan o'r rhaglen godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu byddai Llywodraeth y DU yn diffinio'n glir y "cynnig" i unrhyw gymuned a all fod â diddordeb mewn bod yn safle CGD. Hefyd darperid gwybodaeth gyhoeddus, hawdd ei gyrraedd, ynghylch gwaredu daearegol a daeareg sylfaenol eu hardal (gweler paragraff 3.15).

2.17 Byddai'r "cynnig" yn asesiad agored a thryloyw o oblygiadau creu safle CGD mewn unrhyw gymuned, yn nodi'r broses i'w dilyn gan y gymuned os dymuna ymwneud â'r broses leoli. Byddai'r wybodaeth hon yn ei gwneud yn haws i gymunedau a all fod â diddordeb mewn ymuno yn y broses dewis safle ddeall, o'r cychwyn cyntaf, beth fyddai natur y prosiect (a'i ganlyniadau lleol posibl).

2.18 Byddai'n cynnwys y math canlynol o wybodaeth am waredu daearegol:

- Beth yw gwaredu daearegol, a pham fod ei angen;
- Disgrifiad o ddyluniad ffisegol posibl CGD, uwch ben a than y ddaear;
- Y gofynion diogelwch a sut y gall CGD gwrdd â'r holl feini prawf diogelwch angenrheidiol;
- Pa fathau a pha feintiau o wastraffau ymbelydrol a osodir mewn CGD;
- Y broses adnabod safle, a phwy fydd yn ymwneud â'r broses honno;
- Yr hyn a wneir mewn gwledydd eraill i reoli eu gwastraff ymbelydrol yn y tymor hir;
- Disgrifiad o ddaeareg ranbarthol Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, wedi ei rannu'n 13 rhanbarth daearegol (gweler paragraff 3.15);
- Disgrifiad o effaith cymdeithasol-economaidd generig CGD, yn cynnwys disgrifiad o'r swyddi lleol posibl a'r oblygiadau i'r gadwyn gyflenwi;
- Awgrym o'r buddiannau ychwanegol y gall cymuned eu disgwyl, tu hwnt i'r rhai a grëir yn uniongyrchol gan y buddsoddiad CGD (gweler paragraffau 4.10 – 4.12);
- Cynnig i gynhyrchu adroddiadau daearegol a chymdeithasol-economaidd manylach a phenodol i gymuned a all ddymuno mynegi diddordeb (gweler paragraff 2.50).

**Proses fwy parhaus, yn galluogi penderfyniadau gwybodus**

2.19 Cydnabyddir fod problemau wedi cael eu hachosi'n anfwriadol drwy osod pwyntiau penderfynu ffurfiol cyn dechrau pob cyfnod o'r broses leoli bresennol (h.y. weithiau, cyn y gellid casglu'r wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus). Felly, cynigir y dylid newid y broses dewis safle fel ei bod un fwy parhaus gan warchod sefyllfa'r gymuned drwy ganiatáu Hawl Tynnu'n Ôl parhaus, a heb i Lywodraeth Ganol osod unrhyw bwyntiau penderfynu artiffisial.

2.20 Byddai dau gyfnod i'r broses fwy parhaus hon, sef Cyfnod Dysgu a Chyfnod Ffocws ( a ddisgrifir ym mharagraffau 2.43 - 2.64). Yn amlwg, byddai'n dal angen gwneud rhai penderfyniadau trwy gydol y broses, nid lleiaf ohonynt y penderfyniad dechreuol i gymryd rhan yn y broses, i ffurfio'r cyrff partneriaeth ymgynghorol angenrheidiol mewn cyfnodau diweddarach, ac yn olaf i gymeradwyo (neu wrthod) symud ymlaen gyda datblygiad CGD. Ni allai'r broses ond symud ymlaen mewn unrhyw ardal ar gyflymder sy'n dderbyniol gan yr awdurdod cynrychioliadol[31], ond ni fyddai Llywodraeth y DU yn mynnu cael nifer o bwyntiau "aros" ffurfiol sy'n creu pwysau diangen i ymrwymo i symud ymlaen. Gallai'r gymuned, drwy ei awdurdod cynrychioliadol, barhau i symud ymlaen drwy'r broses dewis safle cyn belled â'i bod yn dymuno gwneud hynny, tra'n cadw Hawl Tynnu'n Ôl (gweler paragraffau 2.22 – 2.36).

2.21 I ddarparu rhagor o atebolrwydd democrataidd cynigir, ar yr adeg y mae Hawl Tynnu'n Ôl y gymuned wedi dod i ben yn derfynol, y bydd angen dangos prawf o gefnogaeth y gymuned (gweler paragraffau 2.37 – 2.42).

## Awdurdod cynrychioliadol

2.22 Yn unol ag egwyddorion gwirfoddoliaeth, a'r broses a ddisgrifiwyd yn y Papur Gwyn[32], cynigir y dylai darpar gymuned ar gyfer lleoli safle gadw'r Hawl Tynnu'n Ôl trwy gydol y broses o ddewis lleoliad.

2.23 Dywedodd y Papur Gwyn mai gan lywodraeth leol fyddai'r awdurdod i benderfynu ar ran cymuned sy'n ystyried lleoli safle, ac mai dyma'r corff a fyddai felly'n ymarfer yr Hawl Tynnu'n Ôl. Fodd bynnag, ni ddywedodd pa haen (neu haenau) o lywodraeth leol ddylai feddu'r awdurdod penderfynu hwn. Er mwyn cael gwell eglurder ynghylch lle mae'r awdurdod penderfynu'n gorwedd, cynigir yn awr y dylai Llywodraeth y DU ddatgan ar ba lefel y gweithredir hawl y gymuned leoli i Dynnu'n Ôl.

2.24 Byddai CGD yn lle i gadw gwastraff ymbelydrol actifedd uwch y Deyrnas Unedig. Eto, fe'i lleolid mewn ardal ddaearyddol cymharol fach. Byddai effeithiau creu a gweithredu CGD felly'n cael eu profi gan gymuned benodol mewn ardal benodol. Bydd y gymuned hon yn rhoi gwasanaeth hanfodol i'r genedl a rhaid cynrychioli ei buddiannau yn effeithiol mewn unrhyw broses ddiwygiedig ar gyfer dewis safle.

2.25 Arweiniodd hyn at ystyried y lefel briodol o fewn llywodraeth leol sy'n cynrychioli buddiannau'r gymuned a effeithir drwy ddal yr Hawl Tynnu'n Ôl – a hefyd y

[31] Gweler paragraffau 2.22 – 2.36
[32] *'Managing Radioactive Waste Safely – A Framework for Implementing Geological Disposal"*, Mehefin 2008 http://bit.ly/13LFztm adrannau 6.38 i 6.45

cwestiwn ai un lefel yntau mwy nag un lefel o lywodraeth leol ddylai ymwneud yn ffurfiol â'r broses dewis safle.

2.26 Mae'n amlwg o'r profiad rhyngwladol[33] o ddewis safleoedd CGD fod egwyddor sybsidiaredd[34] fel arfer yn cael ei chymhwyso. Pwrpas yr egwyddor hon yw *to guarantee a degree of independence for a lower authority in relation to a higher body or for a local authority in relation to central government*". Yng nghyd-destun y DU, atgyfnerthwyd yr egwyddor hon gan Ddeddf Lleoliaeth 2011. Fel y dywed y Canllaw sydd ynghlwm â'r Ddeddf Lleoliaeth, "*we think that power should be exercised at the lowest practical level, close to the people who are affected by decisions, rather than distant from them*"[35].

2.27 Wrth gymhwyso'r egwyddor sybsidiaredd i'r broses o ddewis safle CGD yn y DU, a phenderfynu'r lefel isaf *ymarferol*, nid yn unig y mae'n rhaid ystyried agosatrwydd y corff llywodraeth leol i'r bobl a effeithir, ond hefyd y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol y cyfeirir ato yn Neddf Lleoliaeth 2011. Er mwyn i gorff llywodraeth leol weithredu pŵer dros ddatblygiad, rhaid iddo fod â'r gallu i weithredu'r pŵer hwnnw.

2.28 Yn Lloegr, yr haen isaf o lywodraeth leol yw'r Cyngor Plwyf. Mae Llywodraeth y DU o'r farn, er y bydd gan Gynghorau Plwyf swyddogaeth ymgynghori bwysig mewn unrhyw broses dewis safle, nad oes gan y mwyafrif o Gynghorau Plwyf y staff amser llawn na'r adnoddau angenrheidiol i reoli proses neu brosiect o faint datblygiad CGD. Hefyd, awgryma profiad rhyngwladol[36] mai corff a etholir yn uniongyrchol ddylai weithredu fel cynrychiolydd democrataidd y gymuned mewn proses leoli o'r fath ac ni chaiff pob cynghorydd plwyf ei ethol yn uniongyrchol.

2.29 Yr haen lywodraeth leol agosaf i'r isaf yn Lloegr yw'r Dosbarth (District) (dynodiad sy'n cynnwys pedwar prif fath o gyngor lefel dosbarth yn Lloegr – bwrdeistrefi metropolitan, bwrdeistrefi Llundain, cynghorau dosbarth an-fetropolitan, awdurdodau unedol a hefyd Dinas Llundain ac Ynysoedd Sili). Yn wahanol i'r mwyafrif o Gynghorau Plwyf, mae gan Gynghorau Dosbarth staff llawn amser a chaiff pob Cynghorydd ei ethol yn ddemocrataidd.

2.30 O ganlyniad i'r ystyriaeth hon, cynigir y dylai un lefel cynrychioliadol o lywodraeth leol ddal yr Hawl Tynnu'n Ôl (ar ran y gymuned y mae'n ei chynrychioli), a bod â'r llais terfynol ynghylch symud ymlaen, yn amodol ar ddangos cefnogaeth gymunedol. Cynigir mai'r lefel honno ddylai fod y Cyngor Dosbarth perthnasol yn Lloegr.

2.31 Yng Nghymru ceir un haen o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Mae gan lawer o ardaloedd, ond nid pob ardal, gyngor tref neu gymuned, sy'n debyg i'r plwyfi sifil yn Lloegr. Pe bai cymuned (yn hytrach na, ond heb eithrio, cyngor tref neu gymuned) yng Nghymru yn dymuno mynegi diddordeb, bydd

---

[33] *'Geological Disposal: Overview of international siting processes',* Medi 2013 http://bit.ly/1aC9gTa

[34] Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd – Fersiynau wedi eu cydgrynhoi gan yr Undeb Ewropeaidd o Gytuniad yr Undeb Ewropeaidd a'r Cytuniad a sefydlodd y Gymuned Ewropaidd: http://bit.ly/1ehc0GZ

[35] http://bit.ly/YdWsea

[36] *'Geological Disposal: Overview of international siting processes',* http://bit.ly/1aC9gTa

Llywodraeth Cymru yn ystyried pa newidiadau polisi a phenderfyniadau sy'n angenrheidiol ac yn ymgynghori â phobl Cymru. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys ystyried ar ba lefel briodol y dylid cynrychioli buddiannau cymunedol. Cyn dod i benderfyniad yng ngoleuni ymgynghoriad, cred Llywodraeth Cymru mai'r cynghorau sir a bwrdeistrefi sirol yng Nghymru ddylai gynrychioli buddiannau eu cymunedau lleol yn y materion hyn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn derbyn y gall cynghorau tref a chymuned yn ogystal ddymuno cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru ac i'w cyngor sir neu fwrdeistref sirol.

2.32 Yng Ngogledd Iwerddon mae un haen o gynghorau dosbarth. Fodd bynnag, cyn i gyngor dosbarth fynegi diddordeb, bydd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn ystyried pa newidiadau polisi a deddfwriaethol sy'n angenrheidiol i alluogi'r broses hon i fynd yn ei ymlaen. Gallai olygu ymgynghori â holl bobl Gogledd Iwerddon.

2.33 Yn y ddogfen ymgynghori hon, defnyddir y term "awdurdod cynrychioliadol" i gyfeirio at y lefel hon o lywodraeth leol y cynigir y dylai weithredu'r Hawl Tynnu'n Ôl ar ran y gymuned a gynrychiola.

2.34 Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod, fodd bynnag, fod gan y Cyngor Sir, lle mae cyngor o'r fath yn yr ardal dan sylw) ddiddordeb mawr a dilys yng nghanlyniad y broses dewis safle. Oherwydd hyn, mae'n bwysig fod y Sir yn cael ei chynrychioli yn y broses dewis safle, gyda'r gallu i ddylanwadu. Am y rheswm hwn mae Llywodraeth y DU yn cynnig y dylai'r Sir fod â swyddogaeth amlwg yn y corff a fydd yn llywio'r broses dewis safle, a elwir yn "Bartneriaeth Ymgynghorol". Eglurir hyn yn nes ymlaen yn y Bennod hon (gweler paragraffau 2.54 – 2.56).

2.35 Byddai'n rhaid i Gynghorau Plwyf (lle maent yn bodoli yn yr ardal dan sylw) hefyd ymwneud â'r broses dewis safle. Byddid yn darparu swyddogaeth ymgynghorol i'r haen hon o lywodraeth leol hefyd gan y Bartneriaeth Ymgynghorol a sefydlir mewn ardal sy'n gwirfoddoli.

2.36 Nid yw'r broses a sefydlir yma ar gyfer ceisio cydsyniad cymunedol yn yr ardal a effeithir fwyaf gan ddatblygiad CGD yn lleihau'r angen i asesu effeithiau ehangach y datblygiad ac i safbwyntiau'r Sir, ac eraill, gael eu clywed yn llawn (drwy'r Bartneriaeth Ymgynghorol yn ogystal â'r prosesau cynllunio a rheoleiddio statudol).

**<u>Yr angen i ddangos cefnogaeth y gymuned</u>**

2.37 Cynigir y dylai'r gymuned, drwy ei awdurdod cynrychioliadol, gadw'i Hawl Tynnu'n Ôl trwy gydol y broses dewis safle hyd at y pwynt y bydd angen dangos cefnogaeth y gymuned. Mae'r angen hwn i ddangos cefnogaeth gymunedol yn ofyniad newydd yn broses dewis safle.

2.38 Y rhesymeg tu cefn i'r cynnig yw bod Llywodraeth y DU angen bodloni ei hun fod y gymuned yn cefnogi CGD. Byddai'r gofyniad i ddangos cefnogaeth y gymuned yn:

- Darparu mesur clir o gefnogaeth y cyhoedd ar lefel y gymuned a effeithir fwyaf uniongyrchol gan y prosiect CGD;
- Atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth y DU i allu cymuned i dynnu'n ôl o'r broses os nad yw'n dymuno cymryd y penderfyniad terfynol i wirfoddoli i fod yn lleoliad CGD.

2.39 Cynigir, heb y dystiolaeth hon o gefnogaeth y gymuned, na ellid symud ymlaen i ddatblygu CGD ac y byddai'r broses mewn perthynas â'r safle (neu safleoedd) dan ystyriaeth yn dod i ben.

2.40 Os ceir cadarnhad o gefnogaeth y gymuned, byddai'r darpar gymuned leoli wedi cytuno i fod yn lleoliad safle CGD a gallai datblygiad CGD fynd yn ei flaen, yn amodol ar gwblhau'n llwyddiannus y prosesau rheoleiddio a chynllunio angenrheidiol ar gyfer datblygu'r safle.

2.41 Mae nifer o ffyrdd posibl o gwrdd â'r gofyniad hwn i ddangos cefnogaeth y gymuned. Ymhlith yr awgrymiadau a dderbyniwyd eisoes y mae cynnal refferendwm mewn ardal a ddiffiniwyd yn addas, gwneud defnydd helaeth o bolau piniwn, paneli dinasyddion a gwrandawiadau cymunedol. Gellid hefyd defnyddio cyfuniad o'r rhain (neu unrhyw ddulliau eraill cyffelyb). Cyn dod i farn derfynol, mae Llywodraeth y DU yn gwahodd sylwadau ynglŷn â'r ffyrdd posibl o ddangos cefnogaeth y gymuned, ac amseriad prawf o'r fath.

2.42 O ran yr amseriad, gellid dadlau y dylai hyn ddigwydd cyn gwario llawer o arian cyhoeddus ar gloddio tyllau archwilio a chynnal archwiliadau dan ddaear yn y safle dewisol, gyda'r Hawl Tynnu'n Ôl yn dod i ben wrth i'r gymuned fynegi parodrwydd i symud ymlaen, yn amodol ar y prosesau rheoliadol a chynllunio arferol, a fyddai'n cael blaenoriaeth o'r cyfnod hwnnw ymlaen. Fodd bynnag, mae gwrthddadl y byddai dod â'r Hawl unochrog Tynnu'n Ôl i ben yn rhy fuan yn lleihau hyder y cyhoedd yn y broses ac yn gorfodi pobl i benderfynu ymrwymo cyn bod yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael ynghylch effeithiau disgwyliedig y datblygiad.

**Cwestiwn 1: A gytunwch y dylid cael prawf o gefnogaeth y cyhoedd cyn i'r awdurdod cynrychioliadol golli ei Hawl Tynnu'n Ôl? Os felly, beth dybiwch chi fyddai'r ffordd fwyaf priodol o brofi barn y cyhoedd, a phryd ddylid gwneud hynny? Os nad ydych yn cytuno fod angen prawf o'r fath, eglurwch pam os gwelwch yn dda.**

## Y Cyfnod Dysgu

2.43 Fel y nodir ym mharagraffau 2.13 - 2.15, ni fydd Llywodraeth y DU yn agor y broses o wahodd ceisiadau gan gymunedau sy'n dymuno mynegi diddordeb, a thrwy hynny ddechrau'r Cyfnod Dysgu, nes cyflwyno a gweithredu rhaglen godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Ar ôl dechrau'r drefn codi

ymwybyddiaeth ac ymgysylltu, ni fyddai cyfnod amser penodol cyn y byddai'n rhaid i gymuned symud ymlaen i'r Cyfnod Dysgu, er y byddai Llywodraeth y DU yn adolygu'r cynnydd a wnaed gyda'r broses dewis safle o bryd i'w gilydd.

2.44 Cyn y pwynt hwnnw, gallai unrhyw gyrff lleol gysylltu â Llywodraeth y DU yn gofyn am fwy o wybodaeth am y broses dewis safle, a holi a allai fod yn berthnasol i'w hardal hwy. Er mwyn mynd ag unrhyw ymholiad dechreuol ymhellach, fodd bynnag, byddai'n rhaid i Lywodraeth y DU gysylltu â'r awdurdod cynrychioliadol i egluro y derbyniwyd mynegiant o ddiddordeb o fewn yr ardal y mae'n ei chynrychioli, ac yn gofyn ei farn ynghylch sut y dylid symud ymlaen.

2.45 Pwrpas y trafodaethau dechreuol hyn fyddai codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o fewn yr awdurdod cynrychioliadol o'r hyn a olyga prosiect CGD, y potensial ar gyfer datblygu lleol, a beth ellid ei gyflawni o fewn Cyfnod Dysgu, heb wneud unrhyw ymrwymiad.

2.46 Os yw'r awdurdod cynrychioliadol, ar ôl cynnal y trafodaethau dechreuol hyn, o'r farn y gallai CGD fod o ddiddordeb i'r gymuned y mae'n ei chynrychioli, cynigir, er mwyn helpu canfod beth a allai olygu, y byddai Llywodraeth y DU yn gofyn i'r awdurdod cynrychioliadol gytuno i'r RWMD gomisiynu dau adroddiad, ar ddaeareg a materion cymdeithasol-economaidd (gweler paragraff 2.50), i'w ystyried gan yr awdurdod cynrychioliadol, heb ymrwymiad o unrhyw fath. Hwn fyddai dechrau'r Cyfnod Dysgu.

2.47 Ni fyddai cyfyngiad dechreuol ar nifer y cymunedau a allai gytuno i gomisiynu'r adroddiadau yma, a thrwy hynny symud ymlaen i'r Cyfnod Dysgu.

2.48 Efallai y dymuna'r awdurdod cynrychioliadol ymwneud yn rhagweithiol â'r broses dewis safle ar adeg comisiynu'r ddau adroddiad, neu ddal yn ôl ei safbwynt nes y darperir y wybodaeth hon. Yn y cyfnod cynnar yma, cyn y byddai natur y cynigion neu eu hymarferoldeb yn glir, nid yw Llywodraeth y DU yn credu y byddai'n briodol gosod unrhyw ofyniad ffurfiol am fynegiant o gefnogaeth gymunedol. Dylid asesu'r gefnogaeth gymunedol pan fydd eglurder ynghylch beth a gynigir, yn dilyn cyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu (gweler paragraffau 2.37 – 2.42).

2.49 Disgwylir i'r ffaith fod yr awdurdod cynrychioliadol wedi cytuno i gomisiynu'r adroddiadau gael ei wneud yn wybodaeth gyhoeddus.

2.50 Byddai'r adroddiadau'n cael eu cynhyrchu ar gost yr RWMD, dros gyfnod o 1-2 flynedd, a byddent yn cynnwys -

- Adroddiad daearegol - asesiad o'r wybodaeth ddaearegol hysbys ar gyfer yr ardal leol (neu ran o'r ardal leol, os nodir hynny gan yr awdurdod cynrychioliadol). Mae hyn yn cynnwys cymhwyso'r meini prawf cyfredol ar gyfer anaddasrwydd, ynghyd ag (os oes angen) archwiliadau newydd geoffisegol o'r awyr. Fe'i gwneid ar sail ddiduedd gan Arolwg Daearegol Prydain *(British Geological Survey)* (gweler paragraff 3.16).

- Adroddiad cymdeithasol-economaidd – astudiaeth annibynnol o ragolygon cymdeithasol-economaidd yr ardal leol (a'r ardal o amgylch) ac effeithiau posibl buddsoddiad mewn CGD. Byddai'r adroddiad yn cynnwys cynigion ar gyfer y mathau o fuddsoddi a roddai'r budd mwyaf i'r ardal (i hysbysu ystyriaeth a roddir i unrhyw Becyn Buddiannau Cymunedol a fyddai ynghlwm ag adeiladu CGD). Pwrpas yr adroddiad hwn fyddai galluogi'r awdurdod cynrychioliadol i bwyso a mesur a fyddai CGD yn gwneud cyfraniad ystyrlon i les cymdeithasol-economaidd yr ardal.

2.51 Ar ôl iddynt dderbyn yr adroddiadau hyn, byddai Llywodraeth y DU, yr awdurdod cynrychioliadol a'r RWMD yn cyd asesu a ydynt yn cynnig "rhagolygon rhesymol" y gallai'r ardal fod yn addas ar gyfer lleoli CGD. Os cytunir eu bod yn cynnig "rhagolygon rhesymol", yna gallai Llywodraeth y DU a'r awdurdod cynrychioliadol benderfynu y byddai'n werth symud ymlaen i "Gyfnod Ffocws" y broses dewis safle a chai Grŵp Llywio a Phartneriaeth Ymgynghorol ei ffurfio i oruchwylio'r broses.

## Y Cyfnod Ffocws

2.52 Pwrpas y cyfnod hwn fyddai canfod yn union pa ardal/ardaloedd penodol a allai fod yn addas ar gyfer cyfleusterau ar yr wyneb a than ddaear (neu gasglu nad oes ardaloedd a allai fod yn addas), ac yna archwilio'r ardaloedd hynny'n fanylach. Pe byddai'r cyfnod hwn yn parhau hyd ei ddiwedd, dyma'r cyfnod a fyddai'n cynnwys y rhan fwyaf o'r broses dewis safle ac fe allai barhau am fwy na degawd mewn unrhyw ardal lle gellid lleoli safle CGD. Byddai RWMD, ar ran Llywodraeth y DU, yn ymgymryd â rhaglen o waith technegol angenrheidiol yn y cyfnod hwn.

2.53 Cai "Grŵp Llywio ei ffurfio ac arno'r awdurdod cynrychioliadol lleol (yn cynrychioli'r bobl a effeithid fwyaf gan y datblygiad posibl), Llywodraeth y DU ac RWMD (fel y datblygwr). Cadeirydd y Grŵp fyddai Arweinydd yr awdurdod cynrychioliadol. Byddai gan y Grŵp Llywio dair prif swyddogaeth yn y Cyfnod Ffocws, sef:

- Adolygu'n barhaus ymarferoldeb a derbynioldeb yr ardal fel lleoliad posibl;
- Cynghori Llywodraeth y DU ac RWMD (fel y datblygwr) ynghylch gweithrediad y Cyfnod Ffocws; ac
- Ymgysylltu a chyfathrebu â'r gymuned leol ehangach.

2.54 Ar ddechrau'r Cyfnod Ffocws hefyd, byddai'n rhaid galw ynghyd "Bartneriaeth Ymgynghorol". Byddai gan y Grŵp Ffocws yr hawl i benodi unrhyw randdeiliaid a oedd â diddordeb yn y broses leoli i wasanaethu ar y Bartneriaeth Ymgynghorol (e.e. aelodau o awdurdodau cyfagos, cynrychiolwyr busnes, Cynghorau Plwyf, gwasanaethau cyhoeddus lleol, grwpiau preswylwyr neu gyrff anllywodraethol). Mewn ardal gyda dwy haen o awdurdodau lleol, byddem yn disgwyl i'r Cyngor Sir fod â rhan flaenllaw. Byddai'r Bartneriaeth Ymgynghorol yn penodi Cadeirydd, a hefyd yn adnabod aelod i wasanaethu fel sianel ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng y Grŵp Llywio a'r Bartneriaeth Ymgynghorol.

2.55 Gydag aelod hysbys o'r Bartneriaeth Ymgynghorol yn gweithredu fel sianel, byddai'r Grŵp Llywio yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Bartneriaeth Ymgynghorol i'w diweddaru ynghylch cynnydd y broses dewis safle a sicrhau fod materion a godir gan y Bartneriaeth Ymgynghorol yn derbyn sylw o fewn y broses dewis safle.

2.56 Byddai'r awdurdod cynrychioliadol, Llywodraeth y DU ac RWMD (fel y datblygwr) yn aelodau o'r Bartneriaeth Ymgynghorol.

2.57 Telid costau rhesymol y Grŵp Llywio a'r Bartneriaeth Ymgynghorol – yn cynnwys cost ymgysylltu â'r cyhoedd – gan gronfa ymgysylltu a ddarperid gan Lywodraeth y DU, fel ag a wnaed yn ystod y broses flaenorol yng ngorllewin Cumbria.




Rig cloddio tyllau turio, Sweden (trwy garedigrwydd SKB)

2.58 Pan fyddai'r Grŵp Llywio wedi penderfynu pa ardaloedd penodol ar yr wyneb a than ddaear y maent yn eu ffafrio, byddent yn datgan eu bod yn barod i'r datblygwr (RWMD) gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer yr archwiliadau perthnasol mewnwthiol (h.y. cloddio tyllau turio) (gweler paragraffau 3.38 – 3.40).

2.59 Gall fod mwy nag un awdurdod cynrychioliadol yn symud ymlaen drwy'r Cyfnod Ffocws ar yr adeg hon, ond byddai'n rhaid i Lywodraeth y DU ystyried ai priodol fyddai cloddio tyllau turio mewn rhai neu'r cyfan ohonynt.

2.60 O dderbyn yr hawliau a thrwyddedau perthnasol, treulid 5-10 mlynedd nesaf y Cyfnod Ffocws yn asesu addasrwydd daearegol y cyfaint/cyfeintiau cerrig dan ddaear a gynigir fel lle posibl ar gyfer CGD, ynghyd â chynllunio dyluniad manwl y cyfleusterau ar yr wyneb a than ddaear. Byddai hyn yn cynnwys ymchwil ar ffurf tyllau turio ac arolygon seismig

2.61 Tua diwedd y Cyfnod Ffocws, bydd un safle wedi ei adnabod ym mhob ardal, a chynlluniau datblygu manwl wedi eu llunio. Y cynlluniau hyn fyddai sail cais yr RWMD am ganiatâd i ddatblygu'r CGD ei hun yn yr ardal a ddewisir yn derfynol.

2.62 Byddai paratoi cais am ganiatâd datblygu yn golygu ymgynghori'n eang iawn â'r cyhoedd, a rhoi sylw i ddiddordebau ehangach.

2.63 Ar adeg briodol yn y Cyfnod Ffocws, ac wedi ei hysbysu gan yr ymatebion i'r Ymgynghoriad hwn, byddid yn profi'n derfynol gefnogaeth y gymuned (gweler paragraffau 2.37 – 2.42). Unwaith y digwydd y prawf hwnnw, ac yn amodol ar fedru dangos cefnogaeth y gymuned, byddai hawl yr awdurdod cynrychioliadol i dynnu'n ôl o'r broses dewis safle yn dod i ben.

2.64 Os rhoddir caniatâd i ddatblygu, gallai gwaith dan ddaear ac adeiladu CGD ddechrau, yn amodol ar dderbyn y cydsyniadau rheoleiddiol angenrheidiol. Er mwyn cydnabod yr ymrwymiad arwyddocaol a wnaed gan y gymuned, gellid rhyddhau cyfran helaeth o weddill y Pecyn Buddiannau Cyhoeddus wedi'r pwynt hwn.

**Cwestiwn 2 - A gytunwch â'r newidiadau a awgrymir i'r trefniadau penderfynu o fewn y broses dewis safle MRWS? Os nad ydych yn cytuno, sut fyddech chi'n addasu'r dull gweithredu fesul cyfnod a awgrymir, neu pa ddull arall o weithredu a fyddech chi'n ei gynnig? Eglurwch eich rhesymeg os gwelwch yn dda.**

## Swyddogaethau fel rhan o'r broses dewis safle

### Yr achos dros newid

2.65 Mae profiad o'r broses dewis safle hyd yma, ynghyd â'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y Cais am Dystiolaeth, yn awgrymu'r angen am eglurder ynghylch y ffordd y diffiniwyd rhai swyddogaethau a chyfrifoldebau yn y Papur Gwyn. Mae'r diffyg eglurder presennol o bosibl yn rhwystro cymunedau rhag ymuno yn y broses leoli a lleihau'r tebygolrwydd o adnabod cymuned gyda daeareg addas sy'n fodlon lleoli CGD.

2.66 Roedd ymagwedd Llywodraeth y DU ac RWMD tuag at ymgysylltu i raddau helaeth yn oddefol, wedi ei gyfyngu i sicrhau fod gwybodaeth ar gael ond heb ymgysylltu mewn ffordd ragweithiol â darpar gymunedau lleoli nes iddyn nhw ddewis cymryd y "cam cyntaf".

2.67 O gael eu labelu'n "Gyrff Penderfynu" yng nghyswllt y broses ddewis safle, teimlai cynghorwyr a oedd yn ymwneud â'r broses leoli eu bod yn cael eu gorfodi i gymryd safbwynt niwtral mewn perthynas â CGD a'u hymwneud â'r broses ddewis safle. Arweiniodd hyn at ostwng ansawdd y drafodaeth leol a mygu trafodaeth ddilys.

2.68 Efallai bod gwaith y rheoleiddwyr yn llai amlwg i randdeiliaid a'r cyhoedd yn gyffredinol nag a ddylai fod o gofio eu swyddogaeth greiddiol a therfynol yn y pen draw mewn perthynas â diogelwch gweithredol ac amgylcheddol CGD. Pwysleisiodd yr Asiantaeth Ynni Niwclear bwysigrwydd swyddogaeth y rheoleiddwyr a'r modd y cânt eu hamgyffred wrth reoli gwastraff ymbelydrol yn rhyngwladol[37].

[37] The Regulator's Evolving Role and Image in Radioactive Waste Management Lessons Learnt within the NEA Forum on Stakeholder Confidence, NEA 2003, http://bit.ly/14LjeJZ

2.69 Nid oedd unrhyw swyddogaeth ddiffiniedig i sefydliadau anllywodraethol (NGOs), a all fod yn barod i herio swyddogaethau mewn ffordd adeiladol o fewn y broses, gan helpu i sicrhau fod y broses honno'n gadarn.

## Y newid arfaethedig yn y dull gweithredu

2.70 Lle awgrymir newidiadau i swyddogaethau'r chwaraewyr allweddol yn y drefn leoli bresennol (gweler paragraff 1.41), bwriad y newidiadau yw creu gwell eglurder ynglŷn â swyddogaethau a/neu amlygu swyddogaeth sefydliadau allweddol yn gynt yn y broses, er lles cymunedau sy'n ystyried lleoli CGD. Nodir y prif newidiadau isod.

### Llywodraeth y DU

2.71 Bu'r Deyrnas Unedig yn cynhyrchu gwastraff ymbelydrol actifedd uwch ers mwy na hanner can mlynedd, naill ai yn y diwydiannau amddiffyn neu ynni, ac mae er lles cenedlaethol yn y tymor hir i weithredu ateb parhaol i waredu'r gwastraff hwn. Cynigir fod Llywodraeth y DU yn gweithredu mewn ffordd fwy rhagweithiol i godi ymwybyddiaeth o'r broses o ddewis safle CGD yn genedlaethol, ac i ddwyn y cyfleoedd ymgysylltu i sylw'r cymunedau sy'n ystyried lleoli CGD. Mae hyn yn cynnwys rhaglen genedlaethol codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu (paragraffau 2.13 - 2.15), sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael yn gynt yn y broses (gweler paragraffau 2.16 - 2.18 a 2.50), a mabwysiadu agwedd fwy rhagweithiol tuag at ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfathrebu yn gyffredinol.



Cyfleusterau ar yr wyneb yn Labordy Craig Galed tan ddaear Äspö, Sweden (trwy garedigrwydd SKB)

### NDA / RWMD

2.72 Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) sy'n gyfrifol am ddatgomisiynu a glanhau cyfleusterau niwclear sifil y DU (a ddaeth i ddiwedd eu hoes weithredol) ac ar gyfer gweithredu gwaredu daearegol. Cynigir y dylai'r NDA hyrwyddo gwaredu daearegol fel rhywbeth hanfodol i alluogi ei gyfrifoldebau datgomisiynu ac i reoli gwastraff.

2.73 Y Gyfarwyddiaeth Rheoli Gwastraff Ymbelydrol (RWMD) yw corff gweithredol yr NDA ar gyfer gwaredu daearegol. Bydd RWMD yn gyfrifol am symud ymlaen y broses dewis safle, cael caniatâd cynllunio, cael trwydded safle niwclear, cael

trwyddedau amgylcheddol ac adeiladu a rhedeg CGD. Cynigir bod RWMD yn chwarae rhan arweiniol mewn helpu cymunedau lleol sy'n ymwneud â'r broses dewis safle i ddeall yr amrediad o ystyriaethau sy'n gysylltiedig â gweithredu CGD. Gyda hyn mewn golwg, cynigir y dylai RWMD fod yn aelod o'r Grŵp Llywio a gawsai ei sefydlu yn y Cyfnod Ffocws (gweler paragraff 2.53).

**Llywodraeth leol**

2.74 Mae swyddogaeth cyrff etholedig lleol yn y broses dewis safle yn parhau'n allweddol. Fel y dywed paragraffau 2.22 – 2.30, er mwyn cael gwell eglurder ynghylch lleoliad y pŵer lleol i benderfynu, cynigir y dylai Llywodraeth y DU bennu ar ba lefel y gweithredir Hawl Tynnu'n Ôl y gymuned sy'n ystyried lleoli CGD. Cynigir hefyd mai'r "awdurdod cynrychioliadol" ddylai fod y Cyngor Dosbarth (neu'r hyn sy'n cyfateb iddo) yn Lloegr.

2.75 Fel y nodwyd ym mharagraff 2.31, cyn y gwneir penderfyniadau yng ngoleuni unrhyw ymgynghoriad, cred Llywodraeth Cymru mai'r cynghorau sir a bwrdeistrefi sirol yng Nghymru ddylai gynrychioli buddiannau eu cymunedau lleol yn y materion hyn.

2.76 Er mai cynghorau dosbarth yng Ngogledd Iwerddon fyddai yn y lle gorau i gynrychioli buddiannau eu cymunedau lleol, bydd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon angen ystyried pa newidiadau polisi a deddfwriaethol sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni'r swyddogaeth hon, pe bai unrhyw benderfyniadau a wneir yng ngoleuni'r ymgynghoriad yma yn awgrymu'r angen i wneud hynny.

2.77 Mae swyddogaeth yr awdurdod cynrychioliadol o fewn y broses dewis safle yn cael ei nodi'n fanwl ym mharagraffau 2.43 – 2.64. Yn gryno, ei swyddogaeth yw:

- Cynrychioli buddiannau'r gymuned a effeithir gan y prosiect CGD mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y DU;
- Penderfynu gweithredu neu beidio gweithredu'r Hawl Tynnu'n Ôl o'r broses dewis safle;
- Sicrhau y rhoddir sylw gan y cyrff priodol i bryderon a gyfyd o fewn y gymuned; a
- Gwneud y penderfyniad terfynol i wirfoddoli i fod yn lleoliad CGD, yn amodol ar brawf terfynol o gefnogaeth y gymuned.

2.78 Mewn ardal lle mae dwy haen o awdurdodau lleol, dylai'r Cyngor Sir fod yn aelod o'r Bartneriaeth Ymgynghorol a bod â rhan amlwg ynddi. Byddai'r Bartneriaeth Ymgynghorol yn penodi Cadeirydd, a hefyd yn adnabod aelod i wasanaethu fel sianel ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng y Grŵp Llywio a'r Bartneriaeth Ymgynghorol.

2.79 Drwy Gadeirydd y Bartneriaeth Ymgynghorol, byddai'r Grŵp Llywio yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Bartneriaeth Ymgynghorol i'w diweddaru am gynnydd y broses dewis safle a sicrhau fod materion a godir gan y Bartneriaeth Ymgynghorol yn derbyn sylw o fewn y broses dewis safle.

**Rheoleiddwyr**

2.80 Argymhellir y dylai'r *Office for Nuclear Regulation (ONR)* ac, yn Lloegr, yr *Environment Agency (EA)* fod â swyddogaeth amlycach, gan ymgysylltu â chymunedau trwy gydol y broses dewis safle – ond mewn ffordd nad yw'n tanseilio eu hannibyniaeth. Yng Nghymru, byddai'r cyfrifoldeb am reoleiddio unrhyw CGD yn gorwedd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Bydd yr EA yn ymgynghori â chydweithwyr yn Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon trwy gydol y broses dewis safle i sicrhau fod unrhyw faterion amgylcheddol penodol i Ogledd Iwerddon yn derbyn sylw.

2.81 Derbynnir mai amhriodol fyddai i reoleiddwyr fynegi barn am addasrwydd ardaloedd gwirfoddoli posibl ar bwyntiau yn ystod y broses a fyddai'n rhagfarnu eu penderfyniadau rheoleiddio diweddarach. Fodd bynnag, mae lle iddynt egluro eu swyddogaeth yn y broses dewis safle a chynyddu hyder y cyhoedd yn y safonau llym ar gyfer diogelu a gwarchod yr amgylchedd y byddai'n rhaid i CGD eu cwrdd er mwyn cael trwydded safle niwclear a chaniatadau amgylcheddol.



Derbyn casgen gludo Ymbelydredd Lefel Uchel (HLW) yn CLAB (cyfleuster storio gweddillion tanwydd niwclear dros dro dan ddaear) Sweden (trwy garedigrwydd SKB)

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol**

2.82 Mae Llywodraeth y DU yn croesawu amrediad eang o safbwyntiau wrth ddatblygu ei gynigion a chynlluniau ar gyfer lleoli CGD. Gall herio adeiladol arwain at bolisi a gweithrediad mwy effeithiol. I gefnogi'r broses leoli ddiwygiedig, mae Llywodraeth y DU yn awyddus i archwilio opsiynau ar gyfer ymgysylltu'n fwy effeithiol â chyrff anllywodraethol (NGO's) a grwpiau eraill, y gall rhai ohonynt fod yn erbyn bwrw 'mlaen â gwaredu daearegol.

2.83 Fel rhan o drefn llywodraethu'r broses bresennol ar gyfer dewis safle, mae'r Bwrdd Gweithredu Gwaredu Daearegol [*the Geological Disposal Implementation Board – GDIB]* yn bodoli i alluogi'r aelodau i ddal Llywodraeth y DU i gyfrif am weithredu'r prosiect CGD. Er mwyn rhoi swyddogaeth

ddiffiniedig gliriach i gyrff anllywodraethol yn y broses dewis safle, cynigiwn y dylid edrych ar ffurf a strwythur y GDIB ac ystyried grŵp newydd ar gyfer rhanddeiliaid allanol, mewn ymgynghoriad ag aelodau presennol y GDIB a rhanddeiliaid allweddol eraill. Efallai bod angen nifer o sianelau herio gwahanol ac mae gan Lywodraeth y DU farn agored ynghylch beth ddylai’r rhain fod.

2.84 Yn gyson â’r ymatebion i’r Cais am Dystiolaeth, mae Llywodraeth y DU yn archwilio ffyrdd posibl o drefnu bod datganiadau technegol (cyrff fel Llywodraeth y DU, RWMD neu gyrff ymgyrchu) yn cael eu gwirio’n annibynnol a’u hadolygu gan gymheiriaid.

2.85 Mae sawl ffordd o gyflawni hyn, yn cynnwys:

- Defnyddio CoRWM. Yn ogystal â swyddogaeth bresennol y Pwyllgor o ddarparu cyngor i Weinidogion a chraffu ar bolisïau’r Llywodraeth, gellid diwygio cylch gorchwyl CoRWM er mwyn caniatáu iddo gynghori cymunedau sy’n gwirfoddoli neu gymunedau sy’n ystyried gwirfoddoli;
- Gellid adnabod cronfa o adolygwyr cymheiriol (peer reviewers) y gellid galw arnynt gan gymunedau sy’n gwirfoddoli (neu’n ystyried gwirfoddoli) i adolygu gwaith. Gellid ychwanegu at y gronfa hon mewn ffordd hyblyg gan ddefnyddio argymhellion, fesul achos, o blith aelodau cymdeithasau gwybodus megis y *Royal Society*, y *Royal Academy of Engineering* a’r *Geological Society*;
- Gellid sefydlu corff ymgynghorol annibynnol newydd sbon.

**Cwestiwn 3 - A gytunwch â’r dull hwn o ddiwygio swyddogaethau o fewn y broses dewis safle a nodwyd yn y Papur Gwyn? Os ydych yn anghytuno, pa ddull gweithredu arall fyddech yn ei gynnig a pham?**

# Pennod 3 – Y Gofynion technegol

3.1 Mae gwaredu daearegol yn golygu llonyddu gwastraff ymbelydrol o fewn rhwystrau lluosog, wedi'u hadeiladu, ac yna ei ynysu'n ddwfn y tu mewn i ffurfiant craig addas er mwyn sicrhau nad oes symiau niweidiol o ymbelydredd byth yn cyrraedd yr amgylchedd ar yr wyneb. Mae cyflawni darn o seilwaith o'r math sy'n gofyn am beirianneg uchel yn gofyn am broses gadarn, wrthrychol a thechnegol, gyda thystiolaeth wyddonol a pheirianyddol gref yn sail iddi.

3.2 Fodd bynnag, ni ellir ystyried agweddau technegol y broses ar eu pennau eu hunain. Mae'n rhaid iddynt fod yn cyd-fynd ac yn cefnogi'r dull gwirfoddoliaeth a phartneriaeth i leoli a ddisgrifiwyd yn y bennod gynt. Mae'n rhaid i ddarpar gymunedau storio gael mynediad at yr wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt i gael hyder â phroses ddiwygiedig o ddewis safle.

3.3 Mae'r bennod hon yn edrych ar agweddau technegol y rhaglen - **daeareg**, **cynllunio**, a'r **rhestr** i waredu - o safbwynt sut y maent yn effeithio ar y broses dewis safle.

## Lleoliadau daearegol

### Yr achos dros newid

3.4 Un o'r prif negeseuon gan awdurdodau lleol a oedd â rhan ym mhrosesau gogledd Cumbria a Shepway oedd na roddwyd digon o wybodaeth ddaearegol i gynghorau yn ddigon buan fel sail iddynt wneud penderfyniad. Yn arbennig, roedd y safbwynt a fynnid gan y Papur Gwyn – y byddai addasrwydd tebygol y ddaeareg ddim ond yn cael sylw *ar ôl* Penderfyniad i Gymryd Rhan – yn gadael bwlch gwybodaeth a chwestiynau a phryderon lleol heb eu hateb.

3.5 Mae ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth wedi awgrymu y dylai agweddau daearegol y broses dewis safle gael mwy o ystyriaeth ar gyfnod cynharach. Mae mwyafrif y rhai a ymatebodd wedi galw am ystyriaeth gynt o wybodaeth ddaearegol yn y broses dewis safle, gyda rhai yn gofyn am sgrinio ardaloedd yn dechnegol i gael y ddaeareg 'fwyaf addas' cyn gwahodd gwirfoddolwyr i ymuno â'r broses. Roedd hyn fel na fyddai addasrwydd y ddaeareg yn bwnc trafod i'r rhai oedd yn gwneud penderfyniadau lleol, ac i atal 'gwastraffu' arian ac amser mewn ardaloedd lle'r oedd y ddaeareg yn anaddas neu'n 'llai addas'.

### Y newid arfaethedig yn y dull gweithredu

3.6 Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, bwriad Llywodraeth y DU yw newid y ffyrdd y mae gwybodaeth ddaearegol yn cael eu rhoi yn ystod y broses dewis safle. Y diben fyddai cynnig lefel uwch o ddealltwriaeth ddaearegol yn llawer cynt yn y broses. Dylai hyn helpu i sicrhau penderfyniadau mwy cytbwys ar lefel leol a gwybodaeth fwy cadarn i'r cyhoedd.

3.7 Byddai angen i'r newid arfaethedig yn y dull gweithredu gynnwys offerynnau cyfathrebu sy'n rhoi gwybodaeth effeithiol i'r cyhoedd, a gallu ystyried hefyd yr ansicrwydd anochel yn naeareg dyfnderoedd cyfleusterau posibl.

3.8 Ystyriwyd nifer o ddulliau gwahanol o ddarparu lefel uwch o ddealltwriaeth ddaearegol yn gynt yn y broses dewis safle. Yn sgil galwadau penodol gan randdeiliaid i ddefnyddio sgrinio daearegol ar lefel genedlaethol, cyn gwahodd gwirfoddolwyr, ystyriwyd y dull hwn mewn cryn dipyn o fanylder.

3.9 Barn ddechreuol Llywodraeth y DU yw na ddylid mabwysiadu'r defnydd o feini prawf i adnabod (neu 'rag-sgrinio') ardaloedd a ystyrir yn 'addas' neu'n 'anaddas' reit ar y dechrau. Mae nifer o resymau am hyn:

**Sgrinio o ran anaddasrwydd**

- Nid ystyrir fod defnyddio'r meini prawf sgrinio 'anaddasrwydd' fel ag y'u diffiniwyd ynghynt [38] ar sail genedlaethol yn ymarferol ar sail trafodaethau a gafwyd gyda'r Arolwg Daearegol Prydain (BGS). Lluniwyd y meini prawf hyn ar gyfer eu defnyddio ar lefel leol, yn seiliedig ar yr wybodaeth am yr adnoddau sydd ar gael - nid ar raddfa fawr genedlaethol – ac felly byddai eu cymhwyso'n eang yn gofyn am ddehongliad arbenigol o'r wybodaeth sydd ar gael a mapio mewn ffordd leol dros ben;
- Er y gellid defnyddio sgrinio 'anaddasrwydd' ar lefel uwch na hon, byddai perygl i rai ardaloedd â daeareg addas gael eu gadael allan oherwydd gor-symleiddio'r broses. Drwy ddefnyddio rhywbeth ar raddfa fawr iawn, ni allem ystyried y systemau daearegol lleol a fydd yn penderfynu a yw safle'n addas.

**Sgrinio o ran addasrwydd**

- Does dim o'r fath beth â math daeareg 'gorau' neu 'fwyaf addas';
- Ceir amrywiaeth eang o leoliadau daearegol a allai fod yn addas yn y DU (e.e. mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi adnabod 9 o leoliadau generig a allai fod yn addas[39]). Oherwydd yr amrywiaeth eang hon, maen anodd diffinio meini prawf lefel uchel syml y gellid eu defnyddio'n effeithiol ar lefel genedlaethol. Bydd gan wahanol safleoedd fanteision posibl gwahanol, a gall yr elfennau peirianedig gael eu teilwra ar gyfer y rhain. Ni fydd modd dweud, cyn i unrhyw waith gael ei wneud, fod un ohonynt yn 'well' nag un arall;
- Er bod llawer iawn o wybodaeth ar gael a fyddai'n cynnig dealltwriaeth gadarn o ddaeareg gyffredinol y DU ar raddfa genedlaethol a rhanbarthol, nid yw'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hyn yn gyson ar y lefel leol fwy manwl, yn enwedig mewn dyfnder. Mae sgrinio ar y lefel genedlaethol yn dwyn y risg o beidio ag adnabod ardaloedd sydd o bosibl yn 'addas' ar y raddfa leol;

[38] Sub-surface exclusion criteria for geological disposal: Joint report of the Criteria Proposals Group (CPG) and the Criteria Review Panel (CRP) http://bit.ly/1ehcmNM

[39] *'Technical issues associated with deep repositories for radioactive waste in different geological environments'* Metcalfe and Watson 2009 http://bit.ly/1eDBbB6

- Mae addasrwydd ardaloedd penodol yn dibynnu ar fwy na'u daeareg yn unig, mae'n cynnwys ffactorau eraill hefyd megis y ffordd y mae dŵr yn symud drwy'r creigiau (*hydrogeology*) a phriodweddau cemegol y dŵr sy'n symud drwy'r creigiau (*hydrogeochemistry*). Hyd yn oed pe gellid datblygu meini prawf lefel uchel, ni fyddai'r wybodaeth ar gael i ddefnyddio'r rhain mewn ffordd effeithiol. Ni fydd modd dod i farn ddibynadwy am y ffactorau hyn heb flynyddoedd o astudiaeth fanwl ar safleoedd arbennig, sy'n golygu mai cyfyng ei ddefnydd fyddai sgrinio cychwynnol o safbwynt darparu tystiolaeth ar gyfer datganiadau pendant am addasrwydd.

3.10 Ffactor pwysig a ystyriwyd yn ein newid arfaethedig yn y dull gweithredu yw, er ein bod yn gwybod llawer am strwythur daearegol cyffredinol y DU, yn enwedig mewn dyfnderoedd mwy bas, mae cryn dipyn o ansicrwydd am ar ba ddyfnder y byddai angen adeiladu CGD. Yn arbennig, nid ydym yn gwybod digon am y cyflyrau hydroddaearegol a hydrogeogemegol yn yr ystod dyfnder 200m i 1,000m, ffactorau a fyddai'n dylanwadu'n gryf ar addasrwydd tebygol ardal.

3.11 Mae'r dull gweithredu a gynigiwn i leihau ansicrwydd daearegol yn gynt yn y broses leoli yn cymryd yr heriau ymarferol hyn i ystyriaeth. Mae'n cydnabod yr awydd am fwy o wybodaeth ddaearegol yn gynnar yn y broses, a'r anhawster o ran gwneud datganiadau pendant am addasrwydd ar sail gwybodaeth gyfyngedig. Byddai'n dull gweithredu arfaethedig ar ddwy ffurf:

- Byddai Llywodraeth y DU yn cyhoeddi gwybodaeth am ddaeareg ranbarthol, cyn unrhyw 'alwad' am wirfoddolwyr. Byddai hyn yn rhoi gwybod i gymunedau am y ddaeareg sylfaenol yn yr ardal honno, ac yn ceisio cynnig gwybodaeth heb ddod i farn derfynol am addasrwydd yn seiliedig ar yr wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael (gweler paragraff 3.15).

- Byddai Llywodraeth y DU yn galluogi cynnig ymateb cyflym a thryloyw i unrhyw gymuned â diddordeb mewn deall mwy am y broses. Byddai hyn yn cynnwys adroddiad daearegol manwl, wedi cael craffu annibynnol ac adolygiad cymheiriaid arno, a byddai hwn ar gael yn ystod 'Cyfnod Dysgu' y broses dewis safle (gweler paragraff 2.50 a pharagraffau 3.16 - 3.20). Bydd yr adroddiad o reidrwydd yn un lefel uchel, yn seiliedig ar y data sydd ar gael, ond bydd digon o wybodaeth ynddo i gymunedau allu cael trafodaeth ar y 'rhagolygon' daearegol ar gyfer lletya CGD yn eu hardal. Gallai'r adroddiad gynnwys gwaith arolwg geoffisegol newydd o'r awyr, pe bai hynny'n briodol.

3.12 Byddai dull gweithredu o'r fath yn:

- Darparu gwybodaeth ffeithiol, yn helpu pobl i ddeall yr hyn a wyddys eisoes am eu daeareg ranbarthol. Byddai hyn yn ei dro yn hwyluso trafodaeth gytbwys am y rhagolygon daearegol o'r cychwyn cyntaf;

- Galluogi unrhyw gymuned sy'n dangos diddordeb i gael gafael ar wybodaeth a adolygwyd gan gymheiriaid am eu hardal o ffynhonnell ddibynadwy yn gynnar yn y broses o ystyried unrhyw ardal;

- Caniatáu pwyso a mesur ffactorau geowyddonol lleol yn gytbwys ac agored, mewn perthynas â ffactorau cymdeithasol-economaidd ac amgylcheddol lleol;


- Galluogi cymuned i wybod yn gynnar yn y broses dewis safle a oedd yna bosibilrwydd rhesymol o ganfod maint daearegol addas yn eu hardal.

3.13 Gallai’r dull gweithredu hwn fynd rhagddo mewn nifer o gamau, fel ag yr eglurir yn y paragraffau canlynol.

Cyn lansio

3.14 Mae’r BGS wedi datblygu delwedd lefel uchel o ddaeareg Cymru, Lloegr a’r Alban sy’n cynnwys nifer o dafelli fertigol rhyng-gysylltiedig neu drawstoriadau a ddangosir yn Ffigwr 5 ac y cyfeirir ato fel GB3D[40]. Cyn lansio proses dewis safle ddiwygiedig, byddai’r BGS yn datblygu’r model hwn ymhellach, i helpu i gyfleu ac asesu’r agweddau daearegol i unrhyw gymunedau fyddai’n dymuno dysgu mwy.

[40] BGS National fence diagram http://bit.ly/13LOZoS. Er bod y model hwn yn cyflwyno dealltwriaeth orau’r BGS o’r ddaeareg ar y lefel genedlaethol, mae’n bwysig nodi, hyd yn oed ar y raddfa hon, fod cryn dipyn o ansicrwydd ar yr union ddaeareg mwen nifer o rannau o’r DU, yn enwedig o ran dyfnder.



**Ffigwr 5** – GB3D y BGS – model daearegol 3D i Brydain Fawr

Lansio

3.15 Wrth lansio'r broses leoli ddiwygiedig, byddai'r BGS yn cyhoeddi ar eu gwefan destunau cryno i bob un o'r 13 ardal Canllaw Rhanbarthol ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a fyddai'n darparu model daearegol i bob rhanbarth mewn iaith syml. Gellid cynhyrchu delwedd ddaearegol 3D syml o ddaeareg Cymru a Lloegr, a fyddai'n golygu rhywbeth i'r rhai nad ydynt yn ddaearegwyr yn ystod y cyfnod hwn hefyd, yn seiliedig ar GB3D y BGS. Gellid defnyddio'r deunydd hwn fel sail i drafodaethau cynnar gydag awdurdodau lleol sydd â diddordeb mewn cael gwybod mwy.

Y Cyfnod Dysgu

3.16 Pe bai awdurdod cynrychioladol eisiau dysgu mwy am y broses dewis safle, yna byddai RWMD yn comisiynu'r BGS i wneud asesiad o'r wybodaeth ddaearegol sydd ar gael ar yr ardal, er mwyn cynhyrchu adroddiad daearegol i'r awdurdod cynrychioladol ei ystyried, heb ymrwymiad (gweler paragraff 2.50).

3.17 Defnyddid yr wybodaeth a gesglid gan RWMD fel sail i ffurfio barn gynnar ynghylch a oedd gobeithion rhesymol dros leoli CGD yn yr ardal dan sylw. Byddai angen i'r farn hon ystyried Canllaw'r International Atomic Energy

Agency [IAEA] [41] ar leoli cyfleusterau gwaredu daearegol a hefyd Achos Diogelwch System Waredu RWMD ei hun [42] a adolygwyd gan reoleiddwyr.

3.18 Mae Achos Diogelwch System Waredu RWMD yn nodi tri llwybr a allai beri i ymbelydredd ddychwelyd i'r wyneb o CGD, y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt yn yr achos diogelwch:

- Ymyriad Dynol – y perygl y byddai cenedlaethau'r dyfodol yn drilio i mewn i'r cyfleuster. Byddid yn ystyried y meini prawf a osodwyd yn Atodiad B y Papur Gwyn[43] i sgrinio am ardaloedd anaddas;
- Ymfudiad Nwy – nwy yn cael ei gynhyrchu a/neu'n symud i'r wyneb;
- Ymfudiad Dŵr Daear – y potensial i ymbelydredd gael ei ryddhau drwy lwybr y dŵr daear.

3.19 Disgwylir y bydd yr asesiad daearegol a wnaed gan y BGS yn cynnig digon o wybodaeth i ddod i farn gynnar ynghylch a oes 'rhagolygon rhesymol' fod unrhyw leoliad daearegol arbennig yn addas i gael CGD. Byddai angen archwiliadau trwyadl pellach yn ystod y Cyfnod Ffocws er mwyn asesu hyn.

3.20 Mae'n anochel y bydd ansicrwydd yn yr wybodaeth sydd ar gael i'r asesiadau yn y Cyfnod Dysgu, hyd nes i ymchwiliadau o'r fath gael eu cynnal. I reoli hyn, bydd angen arfer barn arbenigol ("expert judgement") a bydd y gwaith yn destun adolygiad gan gymheiriaid. Yn ychwanegol bydd cyfle yn ystod y Cyfnod Dysgu i wneud gwaith arolygu geoffisegol newydd i ategu'r data daearegol sy'n bodoli'n barod.

Y Cyfnod Ffocws

3.21 Pe bai'r adroddiad daearegol yn dangos bod 'rhagolygon rhesymol' o ddod o hyd i ffurfiant daearegol addas, a bod yr awdurdod cynrychioliadol a Llywodraeth y DU yn penderfynu symud i'r Cyfnod Ffocws, byddai asesiadau pellach yn cael eu cynnal i adnabod safleoedd posibl yn erbyn y chwe maen prawf dewis lefel uchel a ddatblygwyd yn flaenorol[44]:

- Y lleoliad daearegol;
- Yr effaith bosibl ar bobl;
- Yr effaith bosibl ar yr amgylchedd naturiol a'r tirwedd;
- Yr effaith ar amodau cymdeithasol-economaidd;
- Y ddarpariaeth cludiant a seilwaith
- Cost, amseriad a hwylustod gweithredu.

[41] *'Geological Disposal Facilities for Radioactive Waste, Specific Safety Guide'*, 2011 http://bit.ly/15W5WJY
[42] Cyhoeddwyd fel: Nuclear Decommissioning Authority *'Geological Disposal: An overview of the generic Disposal System Safety Case'*, NDA/RWMD/010, 2011 http://bit.ly/14F3pd1
[43] *'Managing Radioactive Waste Safely – A Framework for Implementing Geological Disposal'*, Mehefin 2008 http://bit.ly/13LFztm
[44] http://bit.ly/1e20gXI

3.22 Gall fod yn briodol gwneud archwiliadau ar yr wyneb, heb fod yn rhai mewnwthiol (e.e. arolygon adlewyrchiad seismig) yn ystod y cyfnod hwn er mwyn gwella dealltwriaeth o'r strwythurau daearegol lleol.

3.23 Gan gydnabod y bydd dal i fod cryn dipyn o ansicrwydd mewn nifer o agweddau o'r is-arwyneb, byddid yn gwneud defnydd sylweddol o adolygiad cymheiriaid technegol a chraffu drwy gydol y broses hon.

3.24 Byddai angen archwiliadau ar yr arwyneb, yn cynnwys arolygon geoffisegol pellach ac archwiliadau twll turio, i alluogi asesu'r strwythur daearegol (a'r amodau hydroddaearegol, hydrogemegol a geofecanyddol) mewn dyfnder. Mae'n debyg y byddai'r archwiliadau hyn yn cymryd tua 10 mlynedd i'w cwblhau. Er y byddai ansicrwydd yn dal i fod ynghylch rhai agweddau o'r is-arwyneb nes y cafwyd mynediad o dan ddaear, byddai'r archwiliadau arwyneb hyn yn cynnig lefel uchel o hyder ynglŷn ag addasrwydd yr is-arwyneb (neu fel arall). Byddent yn cynnig digon o wybodaeth felly i adnabod safle dewisol ar gyfer ymchwiliadau tanddaearol pellach.

**Cwestiwn 4 - A gytunwch â'r dull hwn o asesu addasrwydd daearegol fel rhan o broses dewis safle MRWS? Os ydych yn anghytuno, pa ddull gweithredu arall fyddech yn ei gynnig a pham?**

## Cynllunio

### Yr achos dros newid

3.25 Yn y Papur Gwyn, ni wnaeth Llywodraeth y DU benderfyniad terfynol ar sut y byddid yn ceisio caniatâd cynllunio i ddatblygu ac adeiladu CGD.

3.26 Er i'r Llywodraeth ddatgan ei bod 'yn tueddu i ffafrio'[45] defnyddio'r gyfundrefn gynllunio ar gyfer seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol[46] ar gyfer adeiladu CGD, nid oedd y drefn gynllunio newydd hon yn ei lle pan gyhoeddwyd y Papur Gwyn. Nid yw CGD ar hyn o bryd yn dod i mewn i'r diffiniad statudol (yn Neddf Gynllunio 2008) o 'Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol'.

3.27 Er ei fod yn nodi y byddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer yr archwiliadau mewnwthiol cynnar, megis drilio tyllau turio, er mwyn nodweddu safleoedd ymgeisydd posibl, nid oedd y Papur Gwyn yn mynegi barn ar ba drefn gynllunio fyddai'n gymwys ar gyfer y penderfyniadau cynllunio hyn.

3.28 Mewn gwirionedd, roedd safbwynt 'o blaid ar hyn o bryd' Llywodraeth y DU o ran sut y byddai ceisiadau cynllunio yn cael eu penderfynu yn creu rhyw gymaint o ansicrwydd parhaus i'r cymunedau oedd yn cymryd rhan, neu'n ystyried cymryd rhan, yn y broses dewis safle ar gyfer CGD. Ni wnaeth hyn ddim i ennyn hyder yn y broses.

[45] *Managing Radioactive Waste Safely – A Framework for Implementing Geological Disposal'*, June 2008 http://bit.ly/13LFztm paragraph 5.30
[46] http://bit.ly/17QHAF0

3.29 Adroddodd Partneriaeth MRWS Gorllewin Cumbria[47] bryder am yr ansicrwydd dros ddynodi CGD yn brosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol. Adroddasant [48] fod nifer o'r pryderon ynghylch pwy fyddai'n dylanwadu ar y broses gynllunio a chael cydbwysedd rhwng y farn leol a'r un genedlaethol. Codwyd pryderon hefyd[49] am y berthynas rhwng y dull gweithredu gwirfoddol o leoli CGD (fel ag yr amlinellwyd yn y Papur Gwyn) a'r drefn gynllunio ar wahân ar gyfer seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol i ganiatáu datblygiad.

3.30 Awgrymodd nifer o'r rhai a ymatebodd i'r Cais am Dystiolaeth y dylid cael mwy o eglurder ar y dull o gael caniatâd cynllunio i CGD. Roedd y rhan fwyaf o'r rheiny oedd yn cynnig newidiadau sylweddol yn awgrymu mai'r drefn gynllunio ar gyfer seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol oedd y fwyaf addas ar gyfer ystyried CGD, o ystyried graddfa ac arwyddocâd cenedlaethol y prosiect. Awgrymwyd hefyd y gallai'r drefn gynllunio ar gyfer seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol helpu wrth ymgysylltu â chymunedau lleol.

3.31 Roedd y rhaid a ymatebodd i'r Cais am Dystiolaeth a ddim o blaid defnyddio'r drefn gynllunio ar gyfer seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol yn teimlo y dylai penderfyniadau cynllunio gael eu gwneud ar lefel Cyngor Dosbarth neu hyd yn oed lefel Cyngor Plwyf (fel y lefel o lywodraeth leol agosaf at safle CGD ac mae'n debyg fyddai'n teimlo effaith ei adeiladu a'i weithrediad fwyaf) er y nodwn y gallai'r grym hwn aros gyda'r Cyngor Sir mewn ardaloedd awdurdod dwy haen o dan y drefn bresennol.

## Y newid arfaethedig yn y dull gweithredu

<u>Cynllunio ar gyfer CGD yn Lloegr</u>

<u>Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol</u>

3.32 Cred Llywodraeth y DU fod yn rhaid pennu'r dull gweithredu ar gyfer cynllunio CGD, a bod manteision eglur i'r drefn gynllunio ar gyfer seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol. Barn ddechreuol Llywodraeth y DU yw y dylai datblygu CGD (yn Lloegr) gael ei geisio drwy'r drefn gynllunio ar gyfer seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol fel ag yr amlinellwyd yn Neddf Gynllunio 2008.

3.33 Golygai hyn y byddai'r Arolygiaeth Gynllunio yn ystyried unrhyw gais am ganiatâd i ddatblygu CGD yn Lloegr ac yn gwneud argymhelliad i Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC). Byddai'r Ysgrifennydd Gwladol wedyn yn gwneud y penderfyniad terfynol p'un ai i roi caniatâd cynllunio ai peidio.

3.34 Y rhesymeg dros y dull gweithredu hwn yw bod CGD yn amlwg yn ddatblygiad seilwaith ar raddfa fawr iawn, ac o arwyddocâd cenedlaethol – yn union y math

[47] *'The Final Report of the West Cumbria Managing Radioactive Waste Safely Partnership',* Awst 2008, Para http://bit.ly/13LPRcU, paragraff 10.28
[48] Ibid. paragraff 10.29
[49] Ibid. paragraff 30

o ddatblygiad y sefydlwyd y drefn gynllunio seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol ar ei gyfer. Mae'n gosod allan proses glir i wneud penderfyniad, yn cynnwys archwiliad gwrthrychol gan yr Arolygiaeth Gynllunio, sy'n argymell i'r Ysgrifennydd Gwladol a ddylid rhoi caniatâd datblygu ai peidio. Mae'r ffaith mai'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gwneud y penderfyniad terfynol yn cadw atebolrwydd democrataidd.

3.35 Mae'r drefn gynllunio ar gyfer seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol yn gosod gofynion sylweddol ar y datblygwr (RWMD yn yr achos hwn) i ymgynghori â chymunedau lleol, awdurdodau lleol, cyrff statudol, a grwpiau perthnasol eraill cyn bod unrhyw gais am ganiatâd datblygu'n cael ei wneud. Mae hyn yn cynnwys trefniadau eglur i ystyried sylwadau gan bartïon â diddordeb i sefydlu'r ffeithiau sy'n berthnasol i benderfynu ar y cais. Ceir darpariaethau eglur hefyd i gynnwys awdurdodau lleol (awdurdodau cyfagos yn ogystal â'r rhai y mae'r datblygiad yn digwydd ynddynt) i sicrhau fod effeithiau lleol yn cael ystyriaeth lawn a'u bod yn sail briodol i argymhelliad yr Arolygiaeth Gynllunio i'r Ysgrifennydd Gwladol.

3.36 Fel ag y disgrifiwyd uchod, roedd rhai o'r rhai a ymatebodd i'r Cais am Dystiolaeth yn teimlo y dylai penderfyniadau cynllunio sy'n gysylltiedig â CGD gael eu gwneud gan awdurdodau cynllunio lleol (neu hyd yn oed Gynghorau Plwyf). Barn ddechreuol Llywodraeth y DU yw na fyddai'n briodol i benderfyniadau cynllunio ar gyfer seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol megis CGD gael eu gwneud yn lleol. Bydd yn rhaid i unrhyw gais gynllunio gymryd barn y gymuned i ystyriaeth lle'n briodol - ond nid oes gofyn am gefnogaeth y gymuned ymhlyg yn y broses gynllunio ei hun. Drwy leoli CDG mewn ysbryd gwirfoddol a phartneriaeth, byddem yn mynd ymhellach a mynnu bod tystiolaeth o gefnogaeth gan y gymuned cyn y gallai'r datblygiad fynd yn ei flaen.

3.37 Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, bydd Llywodraeth y DU yn gosod allan sut y bydd yn dod â CGD o dan y diffiniad o 'Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol' yn adran 14(1) Deddf Gynllunio 2008.

<u>Caniatâd cynllunio i archwiliadau mewnwthiol</u>

3.38 Nid oedd y Papur Gwyn yn gwahaniaethu rhwng caniatâd cynllunio i'r CGD ei hun a chaniatâd cynllunio i'r archwiliadau mewnwthiol a fyddai'n dod cyn hynny. Cred Llywodraeth y DU fod yn rhaid cael eglurder hefyd ar y dull o roi caniatâd cynllunio i archwiliadau mewnwthiol yn Lloegr.

3.39 Er yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, barn ddechreuol Llywodraeth y DU yw y dylai caniatâd cynllunio i archwiliadau mewnwthiol gael eu dwyn o fewn y diffiniad o "Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn adran 14(1) o Ddeddf Gynllunio 2008.

3.40 Y rheswm am hyn yw bod archwiliadau twll turio lleol yn rhan annatod o'r broses ar gyfer datblygu CGD, sy'n amlwg yn ddatblygiad seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol. Fel ag yr amlinellwyd uchod, mae'r llwybr hwn yn galluogi i geisiadau gael eu hystyried gan yr Arolygiaeth Gynllunio, ac mae'n cynnwys trefniadau clir i gael ymgynghoriad lleol ac i ystyried sylwadau lleol.

Caniatâd cynllunio i archwiliadau heb fod yn fewnwthiol

3.41 Mae'n bosibl na fydd nifer o'r archwiliadau geoffisegol nad ydynt yn fewnwthiol (a fyddai'n cael eu gwneud fel sail ar gyfer ymgysylltiad cynharach â chymunedau lleol) yn dod o fewn y diffiniad statudol o 'ddatblygiad' ac felly na fydd angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau lle mae'r archwiliadau geoffisegol anymwthiol arfaethedig yn golygu 'datblygiad', ac felly angen caniatâd cynllunio, mae yna nifer o fecanweithiau caniatâd statudol posibl y gellid eu defnyddio i hwyluso cynnal yr archwiliadau anymwthiol penodol hyn, ac i ddarparu ar gyfer rhoi gwybodaeth ddaearegol newydd yn amserol i gymunedau lleol.

Datganiad Polisi Cenedlaethol

3.42 I gefnogi'r dull gweithredu hwn, ond eto yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyhoeddi Datganiad Polisi Cenedlaethol hefyd, yn benodol ar gyfer CGD. Byddai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol yn amodol ar Werthusiad Cynaliadwyedd yn unol ag adran 5(3) Deddf Gynllunio 2008,a byddai'r Gwerthusiad yn cael ei wneud yn y fath fodd ei fod hefyd yn bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol [50]. Byddai Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar wahân yn cael ei gynhyrchu. Dyma'r un broses ag a ddilynwyd ar gyfer y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Cynhyrchu Ynni Niwclear (EN-6)[51].

3.43 Nid oes angen Datganiad Polisi Cenedlaethol i ddatblygiad gael caniatâd o fewn y drefn gynllunio ar gyfer seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol, ond pan fo Datganiad Polisi Cenedlaethol yn ei le, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu ar unrhyw geisiadau yn unol ag ef, oni bo meini prawf arbennig eraill (a amlinellwyd yn Neddf Gynllunio 2008) yn gymwys.

3.44 O safbwynt amseru a natur y Datganiad Polisi Cenedlaethol, barn ddechreuol Llywodraeth y DU yw y byddai Datganiad Polisi Cyffredinol 'generig' (h.y. ddim yn benodol i safle) yn cael ei ddatblygu yn fuan ar ôl lansio'r broses leoli ddiwygiedig. Byddai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol yn gosod allan yr egwyddorion asesu y byddai ceisiadau'n cael eu hystyried yn eu herbyn, ynghyd â gwybodaeth gefndir ar waredu daearegol, a sut mae gweithredu hyn yn y DU. Ni fyddai'n ystyried safleoedd neu ardaloedd tebygol penodol.

3.45 Mae gwaredu gwastraff ymbelydrol yn fater datganoledig a byddai unrhyw benderfyniadau cynllunio ar gyfer CGD yng Nghymru yn digwydd drwy'r system gynllunio yng Nghymru. Pe bai amgylchiadau'n codi lle byddai angen ystyried cynllunio CGD yng Nghymru, byddai Llywodraeth Cymru'n sicrhau y byddai'r mecanweithiau priodol ar gyfer cynllunio ac asesiadau amgylcheddol yn cael eu rhoi yn eu lle, ac yn destun ymgynghoriad, er mwyn galluogi gwneud unrhyw benderfyniadau mewn ffordd agored a thryloyw.

[50] 2001/42/EC http://bit.ly/IQ6hrz

[51] *'Appraisal of Sustainability of the draft Nuclear National Policy Statement: Main report'*, Tachwedd 2009, paragraph S.3 http://bit.ly/17WgV8V

3.46 Gan fod CGD yn ddatblygiad seilwaith ar raddfa fawr iawn, ac o arwyddocâd cenedlaethol, byddai pob mater cynllunio yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu hystyried gan Adran yr Amgylchedd (DOENI) a'u penderfynu gan y Gweinidog. Pe bai amgylchiadau'n codi lle byddai angen ystyried cynllunio CGD yng Ngogledd Iwerddon, byddai'r DOENI yn sicrhau y byddai'r mecanweithiau priodol ar gyfer cynllunio ac asesiadau amgylcheddol yn cael eu rhoi yn eu lle, ac yn destun ymgynghoriad, er mwyn galluogi gwneud unrhyw benderfyniadau mewn ffordd agored a thryloyw.

**Cwestiwn 5 - A gytunwch â'r dull hwn o gynllunio ar gyfer y cyfleuster gwaredu daearegol? Os ydych yn anghytuno, pa ddull gweithredu arall fyddech yn ei gynnig a pham?**

## Rhestr wastraff

### Yr achos dros newid

3.47 Fel ag yr amlinellwyd yn y Papur Gwyn, y gwastraff ymbelydrol actifedd uwch sydd i'w reoli yn y tymor hir drwy waredu daearegol yw'r rheiny:

- Na ellir mo'u rheoli o dan y 'Polisi ar gyfer Rheolaeth Dymor Hir Gwastraff Ymbelydrol Lefel Isel Solet yn y Deyrnas Unedig' a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2007;
- Nad ydynt yn cael eu rheoli o dan bolisi Llywodraeth yr Alban ar gyfer gwastraff actifedd uwch, gwastraff ar hyn o bryd ger yr wyneb, storio a gwaredu ger safle.

3.48 Mae gwastraff actifedd uwch yn cynnwys y categorïau canlynol o wastraff ymbelydrol:

- Gwastraff lefel uchel (HLW)
- Gwastraff lefel ganolig (ILW)
- Cyfran fechan o Wastraff Lefel Isel (LLW) nad yw'n bodloni'r meini prawf derbyn i'w waredu mewn ystorfa wastraff lefel isel.

Ceir disgrifiadau manwl o'r mathau hyn o wastraff yn Rhestr Gwastraff Ymbelydrol y DU[52]. Maent yn fathau o wastraff a fydd yn cael eu rheoli yn y tymor hir drwy eu gwaredu mewn CGD.

[52] http://bit.ly/16ki7EL



Tun copr gwaredu Gwastraff Lefel Uchel Terfynol (diolch i Posiva)

3.49 Yn ychwanegol at y gwastraff sy'n bodoli'n barod, roedd y Papur Gwyn yn tynnu sylw at rai deunyddiau ymbelydrol nad ydynt yn cael eu dosbarthu'n wastraff ar hyn o bryd *"but that may, if it were decided at some point that they had no further use, need to be managed through geological disposal"*[53]*.* Fel ag y nodwyd yn y Papur Gwyn, mae'r deunyddiau ymbelydrol hyn yn cynnwys –

- Gweddillion tanwydd;
- Plwtoniwm; ac
- Wraniwm.

3.50 Darperir disgrifiadau manwl o'r deunyddiau ymbelydrol hyn yn Rhestr Wastraff Ymbelydrol y DU. Mae Llywodraeth y DU a pherchnogion y deunyddiau hyn wrthi'n ymchwilio i sut y dylent gael eu trin a'u rheoli yn y tymor hir. Mae eu gwaredu mewn CGD yn dal i fod yn un opsiwn. Mewn unrhyw senario yn y dyfodol, y mae bron yn sicr y bydd rhyw ganran o'r deunyddiau hyn na ellir eu hailddefnyddio, a bydd angen eu gwaredu.

3.51 Er mwyn rhoi syniad o faint o wastraff a defnyddiau a allai fod angen eu gwaredu mewn CGD, rhoddwyd Rhestr Waelodlin ("Baseline Inventory") yn y Papur Gwyn. Mynegwyd hon fel amcangyfrif o feintiau mewn metrau ciwbig, ac mewn cynnwys ymbelydrol i bob un o'r chwe chategori o wastraff a deunyddiau uchod. Seiliwyd yr amcangyfrifon hyn ar y Rhestr Wastraff Ymbelydrol y DU fwyaf diweddar, ar y pryd (ffynhonnell wybodaeth gynhwysfawr, a ddiwedderir yn gyson ar wastraff ymbelydrol yn y DU, ar gael i'r cyhoedd)[54].

3.52 Roedd y Papur Gwyn yn ei gwneud yn glir mai dim ond amcangyfrifon, o reidrwydd, oedd y meintiau a ddyfynnwyd yma. Bydd llawer o'r gwastraff y bydd angen ei waredu mewn CGD yn cael ei greu yn y dyfodol, o ganlyniad i weithrediadau sydd heb ddigwydd eto (megis dadgomisiynu'r cyfleusterau presennol). Felly, mae'n anodd rhagweld union feintiau yn hollol sicr ar hyn o bryd.

[53] *'Managing Radioactive Waste Safely – A Framework for Implementing Geological Disposal'*, Mehefin 2008, http://bit.ly/13LFztm paragraf 3.5
[54] http://bit.ly/16ki7EL

3.53 Roedd y Papur Gwyn hefyd yn cynnwys adran ar wastraff o adweithyddion niwclear newydd. Nodwyd *"[it was] not possible to provide at [that] time a definitive inventory of radioactive waste that would arise as a result of a new nuclear build programme"*[55], dywedwyd fod polisi'r Llywodraeth yn mynnu fod perchnogion a gweithredwyr gorsafoedd niwclear newydd yn rhoi arian o'r neilltu dros oes weithredol yr orsaf i gwrdd â chostau llawn dadgomisiynu a'u cyfran lawn o gostau rheoli a gwaredu gwastraff. Yn ôl y Papur Gwyn, *"[through] agreed mechanisms for updating the Baseline Inventory, inclusion of new waste will be taken forward in discussion with host communities as the programme proceeds. GDF design activities will consider the necessary features to safely accommodate particular waste types if that proves necessary"*[56].

3.54 Ers cyhoeddi'r Papur Gwyn, gwelwyd nifer o newidiadau sydd wedi effeithio ar y rhestr a amcangyfrifwyd ar gyfer gwaredu daearegol (y 'Rhestr Waelodlin'). Yn 2010, diweddarwyd y rhestr wastraff a deunyddiau, a arweiniodd at arfarnu'r Rhestr Waelodlin o'r newydd[57] a datblygu Uwch Restr ategol a oedd yn seiliedig ar nifer o senarios a luniwyd i ddisgrifio sut y gallai'r Rhestr Waelodlin esblygu (yn cynnwys ILW a gweddillion tanwydd o adweithyddion newydd posibl). Yn ychwanegol, roedd y polisi datganoledig ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol actifedd uwch yn yr Alban[58] yn golygu na fyddai rhywfaint o'r ILW a glustnodwyd yn gynt ar gyfer gwaredu daearegol yn cael ei reoli yn y modd yma bellach.

3.55 Roedd y Papur Gwyn yn cydnabod y gallai'r rhestr waredu esblygu. Nododd ei bod yn amhosibl rhagweld yn union beth fyddai'r rhestr ac adnabu'r angen am fecanweithiau y cytunwyd arnynt ar gyfer diweddau'r Rhestr Waelodlin[59].

3.56 Cafodd pryderon ynghylch yr ansicrwydd (neu'r gred am ansicrwydd) yn y Rhestr Waredu eu hadlewyrchu hefyd yn yr ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth. Credai sawl un o'r rhai a ymatebodd y dylai cymuned leoli bosibl gael mwy o sicrwydd am y gwastraff a'r deunyddiau a fyddai'n cael eu gwaredu mewn CGD. Dadleuodd ymatebwyr eraill mai dim ond gwastraff sy'n bodoli'n barod ddylai fod yn y rhestr waredu ac nid gwastraff o raglen adeiladu niwclear newydd. Roedd rhai yn pryderu y gallai'r DU geisio mewnforio gwastraff o dramor a chynnwys y rhain yn y Rhestr Waelodlin.

3.57 Mae materion perthnasol eraill sydd wedi effeithio ar fwrw ymlaen â'r broses dewis safle hyd yma yn cynnwys y canlynol –

- Roedd statws plwtoniwm yn aneglur - gan ei fod wedi'i gynnwys yn y Rhestr Waelodlin ar gyfer gwaredu fel ag yr amlinellwyd yn y Papur Gwyn,

---

55 *'Managing Radioactive Waste Safely – A Framework for Implementing Geological Disposal'*, Mehefin 2008 http://bit.ly/13LFztm paragraff 3.21
56 Ibid, paragraff 3.22
57 *'The 2010 Estimate of Radioactive Waste for Geological Disposal'*, Awst 2011, http://www.nda.gov.uk/documents/upload/Radioactive-Wastes-in-the-UK-The-2010-estimate-of-radioactive-waste-for-Geological-Disposal.pdf
58 Polisi Gwastraff Ymbelydredd Actifedd Uwch yr Alban 2011 http://bit.ly/1e21vq6
59 *'Managing Radioactive Waste Safely – A Framework for Implementing Geological Disposal'*, Mehefin 2008, http://bit.ly/13LFztm paragraff 3.17

ond bod Llywodraeth y DU wedi dweud yn ddiweddarach mai ei ddull o ddewis oedd ailddefnyddio'r deunydd hwn i wneud tanwydd ocsid-cymysg (MOX) i'w ddefnyddio mewn adweithyddion[60];
- Ansicrwydd lleol ynghylch a fyddai'r Rhestr Waelodlin yn cynnwys gwastraff o raglen amddiffyn y DU, neu o dramor.

## Y newid arfaethedig yn y dull gweithredu

3.58 Mewn ymdrech i gynnig mwy o eglurder i gymunedau a oedd yn cymryd rhan yn y broses a'r trafodaethau ffocws, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu diffinio un Rhestr Waelodlin at ddibenion gwaredu daearegol. Bwriad Llywodraeth y DU yw bod y sylw ar y mathau o wastraff a deunyddiau i'w gwaredu, gan na ddisgwylir i'r rhain newid dros amser, a gellir rhoi gwybodaeth am nodweddion y mathau o wastraff i gymunedau â diddordeb drwy raglen wybodaeth a gynlluniwyd.

3.59 Cynigir y dylai'r Rhestr Waelodlin ddiwygiedig gynnwys y mathau canlynol o wastraff a deunyddiau:

- ILW yn deillio o'r safleoedd niwclear trwyddedig presennol, ac o ddefnyddiau meddygol, diwydiannol, ymchwil ac addysgol, yng Nghymru a Lloegr.
- Y gyfran fechan honno o LLW nad yw'n addas mewn ystorfa lefel isel.
- HLW o weithrediadau ailbrosesu Sellafield.
- ILW a thanwydd arbelydrol (ac unrhyw LLW nad yw'n addas i'w waredu mewn ystorfa gwastraff lefel isel) o'r rhaglen amddiffyn yng Nghymru a Lloegr, ac o safleoedd yn yr Alban nad ydynt yn dod o dan Bolisi Gwastraff Actifedd Uwch yr Alban.
- Gweddillion Tanwydd o adweithyddion presennol; Sizewell B ac AGR (gan nodi y bydd Gweddillion Tanwydd rhai AGR yn cael ei ailbrosesu) ac o safleoedd etifeddol megis Sellafield a Dounreay.
- Stociau wraniwm.
- Gweddillion Tanwydd (ocsid) ac ILW o raglen adeiladu newydd o uchafswm maint penodol, megis yr 16GW(e) y mae gweithredwyr niwclear wedi datblygu cynigion ar ei gyfer.
- Gweddillion Tanwydd (MOX) o drosi stociau plwtoniwm y DU ynghyd ag unrhyw blwtoniwm gweddilliol nad yw'n addas i gynhyrchu tanwydd.

3.60 Bydd y mathau gwastraff diffiniedig hyn yn sail i'r Rhestr Waelodlin ddiwygiedig o wastraff a defnydd ar gyfer gwaredu daearegol. Mae'r Rhestr Waelodlin ddiwygiedig hon yn cynnwys gwastraff a defnyddiau y gellid eu diffinio fel gwastraff yn y dyfodol. Bydd hon yn cael ei throsi'n feintiau gwastraff, niferoedd pecynnau gwastraff a symudiadau cludiant bob hyn a hyn gan yr NDA a bydd ar gael fel rhan o'r rhaglen wybodaeth a gynlluniwyd. Bydd y rhain yn cyfrannu at ddyluniad CGD a datblygu achos diogelwch a fydd yn cael eu hadolygu gan

[60] *'Management of the UK's Plutonium Stocks – a consultation response on the long-term management of UK-owned separated civil plutonium'*, Rhagfyr 2011 http://bit.ly/18bMSxX

reoleiddwyr annibynnol, gyda'u canfyddiadau ar gael i'r cyhoedd. Bydd manylion y meintiau a adroddir yn newid dros amser oherwydd rhagdybiaethau gwahanol gan y perchnogion gwastraff a'r gweithredwyr safle ond gall cymunedau fod yn ffyddiog y bydd y mathau gwastraff gwaelodol a tharddiad y gwastraff yn cydymffurfio â'r mathau o wastraff a nodwyd uchod.

3.61 Mae ymchwil yn dal i gael ei wneud ar rai o'r mathau hyn o wastraff er mwyn penderfynu ar y dulliau gorau o'u rheoli yn y tymor hir[61]. Yn sgil hynny, gall opsiynau gwahanol i reoli rhai o'r rhain yn y tymor hir gael eu hadnabod a'u mabwysiadu, gan arwain at ostyngiad yn y rhestr ar gyfer gwaredu. Fodd bynnag, cred Llywodraeth y DU ei bod yn dal i fod yn well diffinio'r Rhestr Waelodlin dymor hir fel ei bod yn cynnwys pob math o wastraff posibl fel bod cymunedau tebygol yn cael y darlun llawnaf posibl o'r rhestr i waredu yn gynnar ac yn gallu bod yn ffyddiog na fydd yn ehangu'n arwyddocaol dros amser.

3.62 Bydd angen gwneud yr achos diogelwch dros waredu gweddillion tanwydd a chael sêl bendith rheoleiddwyr i hwn cyn gwaredu mewn CGD. Mae Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â RWMD ac mae'n fodlon nad oes yna resymau technegol pam na all CGD a ddyluniwyd yn briodol gadw gweddillion tanwydd o orsafoedd niwclear newydd yn ogystal â'r rhai presennol. Bydd angen i waredu gweddillion tanwydd fodloni gofynion y cyrff rheoleiddio perthnasol. Mae'r NDA wedi cynnal asesiadau o natur gwaredu deunyddiau gwastraff a gweddillion tanwydd o adweithyddion EPR ac AP1000 fel rhan o broses Asesiad Dylunio Generig (GDA) y rheoleiddwyr. Daeth RWMD i'r farn:

*"On the basis of the GDA Disposability Assessment for the EPR[62] [AP1000[63]], RWMD has concluded that, compared with legacy wastes and existing spent fuel, no new issues arise that challenge the fundamental disposability of the wastes and spent fuel expected to arise from operation of such a reactor. This conclusion is supported by the similarity of the wastes to those expected to arise from the existing PWR at Sizewell B. Given a disposal site with suitable characteristics, the waste and spent fuel from the EPR [AP1000] are expected to be disposable".*

Byddai rheoleiddwyr yn mynd ag unrhyw gynlluniau adweithyddion newydd arfaethedig , neu newidiadau posibl i'r math o danwydd a ddefnyddid, drwy eu prosesau trwyddedu (yn cynnwys GDA). Byddai hyn yn cynnwys asesiad gwaredu i'r gweddillion tanwydd.

[61] Er enghraifft, gellid ailddefnyddio neu reoli stociau wraniwm mewn rhyw ffordd arall ac nid eu hanfon i'w gwaredu'n ddaearegol.

[62] *'Generic Design Assessment: Summary of Disposability Assessment for Wastes and Spent Fuel arising from Operation of the UK EPR'*, 2009 http://bit.ly/18Ugrz6

[63] *'Generic Design Assessment: Summary of Disposability Assessment for Wastes and Spent Fuel arising from Operation of the Westinghouse AP1000'*, 2009 http://bit.ly/14Lneds

3.63 Ailymwelwyd â'r asesiadau hyn gan RWMD yn 2011 a chadarnhawyd fod y casgliadau yn dal yn ddilys yn seiliedig ar yr Achos Diogelwch System Waredu gyffredinol ddiweddaraf i gael ei gyhoeddi [64].

3.64 Polisi cyffredinol Llywodraeth y DU yw na ddylid mewnforio nac allforio gwastraff ymbelydrol i mewn neu allan o'r DU heblaw mewn amgylchiadau cyfyngedig a ddiffiniwyd yn benodol[65]. Yr unig bryd y caniateid mewnforio gwastraff ymbelydrol i'r DU yw pan:

- Mae ffynonellau gweddillion dan sêl, a gynhyrchwyd yn wreiddiol yn y DU, yn cael eu dychwelyd i'r DU i'w trin a'u gwaredu;

- Mae'r gwastraff yn dod gan ddefnyddwyr bychain megis ysbytai mewn naill ai Aelod-Wladwriaeth arall o'r UE neu wlad sy'n datblygu lle y byddai'n anymarferol iddynt gael cyfleusterau gwaredu addas; neu

- Mae yna ddeunyddiau y gellir eu hailddefnyddio wrth eu tynnu o'r gwastraff, neu mae deunyddiau'n cael eu trin i'w gwneud yn fwy hydrin. Os na fyddai'r gwastraff a gynhyrchid fel rhan o'r prosesau hyn yn ychwanegu'n sylweddol at wastraff presennol y DU, gellid penderfynu y byddai'n anymarferol dychwelyd y deunyddiau i wlad eu tarddiad. Yn yr amgylchiadau hyn, gellir ychwanegu deunyddiau gwastraff at stociau'r DU ac, os oes cytundeb i wneud hynny'n bodoli, byddai deunydd gwastraff ymbelydrol cyfatebol (neu rywbeth yn ei le) yn cael ei ddychwelyd yn lle hynny.

**Cwestiwn 6 - A gytunwch â'r eglurhad hwn o'r rhestr ar gyfer gwaredu daearegol – a sut dylid cyfleu hyn i'r gymuned sydd wedi gwirfoddoli i leoli'r cyfleuster? Os ydych yn anghytuno, pa ddull gweithredu arall fyddech yn ei gynnig a pham?**

---

[64] *'Management of Wastes from New Nuclear Build: Implications of the Generic Disposal System Safety Case for Assessment of Waste Disposability'*, 2011 http://bit.ly/15RaSXo

[65] Cm 2919 Review of Radioactive Waste Management Policy; the Transfrontier Shipment of Radioactive Waste and Spent Fuel Regulations 2008 http://bit.ly/17ZHUym

# Pennod 4 - Cymunedau

4.1 Mae'r broses dewis safle a amlinellwyd yn y Papur Gwyn wedi'i adeiladu ar egwyddorion gwirfoddoliaeth a phartneriaeth. Mae Llywodraeth y DU yn dal i fod o'r farn y dylai'r egwyddorion hyn fod wrth wraidd y broses o leoli CGD.

4.2 Mewn dull gweithredu sy'n seiliedig ar wirfoddoliaeth a phartneriaeth, mae'r gymuned yn allweddol. Rhaid i'r broses ddewis safle gael ei theilwra i ymateb i fuddiannau, pryderon, dymuniadau a gofynion y cymunedau lletya posibl. Mae hyn yr un mor wir am gynnwys y broses leoli ag y mae am sut rydym yn ymgysylltu a chyfathrebu â chymunedau.

4.3 Mae'r Bennod hon yn ystyried agweddau'r broses dewis safle gan roi sylw penodol i'r gymuned – yn ystyried y **manteision cymunedol** a'r **effeithiau cymdeithasol-economaidd ac amgylcheddol.**

## Manteision Cymunedol

### Yr achos dros newid

4.4 Bydd adeiladu a gweithredu CGD yn brosiect gwerth biliynau o bunnoedd a fydd yn cynnig gwaith medrus i gannoedd o bobl dros ddegawdau lawer. Mae sgil-fanteision i'r diwydiant yn debygol hefyd, ynghyd â buddsoddiadau mewn seilwaith, manteision i addysg leol neu adnoddau academaidd, ac effeithiau cadarnhaol ar ddiwydiannau gwasanaeth lleol sy'n gefn i'r cyfleuster a'i weithlu.

4.5 Yn ychwanegol at y manteision uniongyrchol hyn, ymrwymodd Llywodraeth y DU yn y Papur Gwyn i ddarparu pecyn o fuddiannau cymunedol i'r gymuned sy'n derbyn CGD, a fyddai'n gymesur â datblygu lles cymdeithasol ac economaidd cymuned sydd wedi penderfynu cyflawni gwasanaeth mor hanfodol i'r wlad.

4.6 Mae'r cymunedau sydd wedi cymryd rhan yn y broses leoli hyd yma wedi mynegi pedwar prif bryder o safbwynt buddiannau i'r gymuned:

- Ni fu Llywodraeth y DU yn ddigon clir am faint o fuddiannau cymunedol a fyddai ar gael;
- Byddai'r buddiannau cymunedol cyntaf yn dod yn rhy hwyr yn y broses bresennol;
- Nid yw'r mecanwaith dros gyflawni buddiannau cymunedol yn eglur; ac
- O ystyried amser maith y prosiect, mae hyder yn y buddiannau tymor hir yn isel, gydag addewidion am dâl mewn degawdau yn golygu dim nac yn gredadwy.

4.7 Mae rhai o'r rhai a ymatebodd i'r Cais am Dystiolaeth wedi mynegi'r farn y gallai Pecyn o Fuddiannau Cymunedol gael ei weld fel ymdrech i 'brynu

cynghorwyr lleol'. Nodwn fod buddiannau cymunedol bellach yn cael eu defnyddio mewn perthynas ag amryw o fathau isadeiledd y sector ynni.

4.8 Mae Llywodraeth y DU yn sylweddoli'r angen am fwy o eglurder ynghylch diben, swm, y cyrff fyddai'n derbyn y dulliau o gyflwyno ac amseriad buddiannau cymunedol.

4.9 Mae Llywodraeth y DU yn sylweddoli hefyd, er mwyn golygu rhywbeth i gymunedau, y dylai cyfran o'r buddiannau cymunedol gael eu rhyddhau cyn dechrau gweithrediadau o dan y ddaear.

## Y newid arfaethedig yn y dull gweithredu

4.10 Bydd Llywodraeth y DU yn ei gwneud yn glir, wrth lansio proses dewis safle ddiwygiedig, mai diben buddiannau cymunedol yw cydnabod, drwy daliad ystyrlon a chymesur, fod darpar gymunedau lletya yn darparu gwasanaeth i'r genedl drwy ystyried cartrefu prosiect seilwaith enfawr. Mae hefyd yn fodd o sicrhau fod yr ardal leol yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae prosiect seilwaith mawr yn eu cynnig.

4.11 Bydd Llywodraeth y DU yn ei gwneud yn glir fod buddiannau cymunedol yn ychwanegol at Gyllid Ymgysylltu (y cyllid y mae Llywodraeth y DU yn ei roi i dalu costau unrhyw gymuned sy'n cymryd rhan yn y broses leoli), ac yn ychwanegol at unrhyw daliadau sy'n ofynnol gan y datblygwr, fel ag yr adnabuwyd gan y broses gynllunio.

4.12 Byddai Llywodraeth y DU yn ei gwneud yn glir, yn gynnar mewn proses dewis safle ddiwygiedig, beth yw hyd a lled posibl y buddiannau cymunedol.

4.13 Yn ystod y Cyfnod Dysgu, gallai cymunedau sy'n cymryd rhan a'u hawdurdodau lleol cyfagos, ddechrau ystyried prosiectau a fyddai'n cael arian drwy fuddiannau cymunedol, yn deillio o'r astudiaeth o ragolygon cymdeithasol-economaidd yr ardal.

4.14 Byddai Llywodraeth y DU yn dechrau talu'r buddiannau yn ystod y Cyfnod Ffocws.

4.15 Fel rhan o'i buddsoddiad yn y gymuned leoli, byddai Llywodraeth y DU yn creu hefyd (o bosibl drwy ddeddfwriaeth) gronfa gymunedol, a byddai'n dechrau talu i mewn i hon yn ystod y Cyfnod Ffocws. Byddai hyn yn creu ymrwymiad parhaol i gefnogi'r gymuned drwy genedlaethau'r dyfodol. Yr unig ffordd y gallai Llywodraeth y DU gael yr arian hwn yn ôl fyddai pe na leolid CGD yn y gymuned.

4.16 Byddai gweddill yr arian sydd ar gael, gan gynnwys i mewn i'r gronfa gymunedol, yn cael ei dalu yn dilyn y penderfyniad terfynol i adeiladu CGD ac yn ystod blynyddoedd cynnar y gweithrediadau dan y ddaear.

**Cwestiwn 7 - A gytunwch â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer buddiannau cymunedol cysylltiedig â CGD? Os ydych yn anghytuno, pa ddull gweithredu arall fyddech yn ei gynnig a pham?**

## Effeithiau cymdeithasol-economaidd ac amgylcheddol

### Yr achos dros newid

4.17 Roedd y Papur Gwyn yn cynnwys ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i asesu a chymryd ystyriaeth lawn o faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd yn y rhaglen waredu daearegol. Roedd hefyd yn ymrwymo'r NDA i baratoi a chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ei gynigion ar gyfer gwerthusiad cynaliadwyedd ac asesiad amgylcheddol.

4.18 Gwnaeth yr NDA hyn yn 2008 a chyhoeddodd ei strategaeth asesu ym mis Gorffennaf 2009[66]. Roedd y strategaeth yn cynnig y canlynol:

- Yn ystod Camau 1 i 3 o'r broses dewis safle, asesiadau cyffredinol (h.y. heb fod yn benodol i leoliad) i helpu i adnabod effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol-economaidd posibl gweithredu gwaredu daearegol. Mae rhywfaint o'r gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau.[67] . Mae gwaith asesu cyffredinol pellach, yn canolbwyntio ar effeithiau cymdeithasol-economaidd a materion iechyd a chludiant yn dal i fynd rhagddo.

- Yn ystod Cam 4, Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) o'r cynigion ar gyfer gweithredu gwaredu daearegol ym mhob cymuned sy'n cymryd rhan. Byddai hyn yn cefnogi darpar safleoedd posibl a gafodd eu hadnabod a'u hasesu.

- Yn gynnar yng Ngham 5, Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) i gefnogi ceisiadau cynllunio ar gyfer archwiliadau mewnwthiol, ar yr wyneb, yn y darpar safleoedd sydd ar ôl.

- Yn ddiweddarach yng Ngham 5 ac i mewn i Gam 6, EIA i gefnogi ceisiadau cynllunio ar gyfer gweithrediadau dan y ddaear mewn safle a ddewiswyd.

4.19 Byddai'r Asesiadau SEA ac EIA yn cydymffurfio â gofynion y Cyfarwyddebau SEA ac EIA Ewropeaidd a'u rheoliadau cyfatebol yn y DU. Fodd bynnag, fel y gwaith asesu cyffredinol cynnar, byddai cwmpas y SEA a'r EIA yn cael ei ehangu y tu hwnt i'r gofynion statudol, i gynnwys ystyriaeth o faterion economaidd, iechyd a chynaliadwyedd ehangach. Byddai Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) 'lefel cynllun', yn cyd-redeg â'r SEA, a HRA 'lefel prosiect' yn ystod Camau 4 a 5 yn cael eu gwneud hefyd i asesu'r effeithiau posibl ar safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol. Mae asesiad 'lefel cynllun' yn asesiad lefel cymharol uchel a wneir ar gynllun neu raglen arfaethedig. Mae asesiad 'lefel prosiect' yn fwy manwl ac fel arfer yn cael ei wneud ar gynnig i weithredu prosiect mewn lleoliad arbennig.

4.20 Er bod cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol (e.e. y SEA, EIA a'r Cyfarwyddebau Cynefinoedd) yn ystyriaeth sylfaenol bwysig wrth gynllunio'r gwaith asesu hwn, ei brif nodau yw hybu canlyniad mwy cynaliadwy i'r rhaglen

[66] *'Geological Disposal: A Strategy for Sustainability Appraisal and Environmental Assessment'*, Gorffennaf 2009 http://bit.ly/1b56SU7

[67] *'Geological Disposal: Generic Environmental and Sustainability Report for a Geological Disposal Facility - Main Report'*, Hydref 2010 http://bit.ly/18bNe7T

waredu daearegol, helpu i fynd i'r afael â materion amgylcheddol a chymdeithasol-economaidd a godwyd gan randdeiliaid, bod yn sail i wneud penderfyniadau ac adeiladu hyder y cyhoedd.

4.21 Bu gwaith asesu cyffredinol RWMD[68] yn ddefnyddiol fel ffynhonnell wybodaeth yn ystod camau cynnar y broses dewis safle. Fe'i defnyddiwyd i roi gwybodaeth i Bartneriaeth MRWS Gorllewin Cumbria ar effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol-economaidd posibl[69] [70] ac mae ar gael i randdeiliaid eraill sydd â diddordeb yn rhaglen MRWS a'i goblygiadau amgylcheddol a chymdeithasol-economaidd posibl.

4.22 Serch hynny, codwyd nifer o faterion penodol[71] gan Bartneriaeth MRWS Gorllewin Cumbria na chafodd sylw yn y gwaith asesu cyffredinol. Roedd y materion hyn ar lefel gymunedol yn bennaf. Roeddent yn cynnwys materion megis yr effeithiau ar fuddsoddiad mewnol, twristiaeth, prisiau tai, cymeriad y tirwedd, y bywyd gwyllt lleol ac yn y blaen. O dan y dull gweithredu presennol yn y Papur Gwyn, nid yw materion mor benodol i'r lleoliad yn cael sylw hyd nes bod Penderfyniad i Gymryd Rhan wedi'i wneud (h.y. yn ystod yr SEA Cam 4 a'r Asesiadau EIA dilynol).

4.23 Fel gyda'r mater o leoliadau daearegol, roedd ymateb amwys y byddai'r materion hyn yn cael sylw wedi Penderfyniad i Gymryd Rhan yn ychwanegu at ansicrwydd am addasrwydd yr ardal ac yn union beth fyddai gwaredu daearegol yn ei olygu i gymuned leol arbennig.

4.24 Yn wahanol i'r lleoliadau daearegol, mae'r rhan fwyaf o gymunedau yn debygol o fod â dealltwriaeth gymharol dda o'r cyfyngiadau ar yr wyneb a'r cyfleoedd yn eu hardaloedd a allai effeithio ar leoli CGD neu gael ei dderbyn gan y bobl leol, megis ardaloedd dynodedig o ddiddordeb gwyddonol, treftadaeth neu dirwedd, neu ardaloedd a glustnodwyd ar gyfer datblygu economaidd. Fodd bynnag, nid yw dealltwriaeth o'r fath yn debygol o fod yn gyflawn a gall hefyd fod angen dehongliad gwrthrychol yng nghyd-destun cyflawni gwaredu daearegol.

4.25 Mae gohirio asesiad nes bod y broses dewis safle ar y gweill yn iawn yn golygu hefyd gohirio datblygu mesurau lliniaru a gwella posibl i fynd i'r afael â phroblemau megis y malltod (blight) posibl a gysylltir â datblygu CGD, a gwneud y mwyaf o'r manteision cymdeithasol-economaidd y gallai cyfleuster gwaredu eu cyflwyno i gymuned.

4.26 Dangosodd adolygiad diweddar o ymarfer asesu mewn sefydliadau rheoli gwastraff niwclear mewn gwledydd eraill[72] fod dull cytbwys o ystyried materion diogelwch, amgylcheddol a chymdeithasol-economaidd *yn gynnar* yn y broses leoli – rhoi gwybodaeth i fynd i'r afael ag ystod eang o bryderon a dyheadau

---

[68] *'Geological Disposal: Generic Environmental and Sustainability Report for a Geological Disposal Facility - Main Report'*, Hydref 2010 http://bit.ly/18bNe7T

[69] *'Summary note on Potential Impacts of Implementing Geological Disposal'*, Hydref 2009 http://bit.ly/1aCaVIh

[70] *'Partnership Report on the Impacts of a GDF'*, July 2011 http://bit.ly/1b578Cy

[71] Ibid, Atodiad A

[72] *'Review of Environmental Assessment Practice in waste management organisations and UK major infrastructure projects'*, Hydref 2011 http://bit.ly/17ZIn3E

rhanddeiliaid – yn gweithio'n dda. Mae'r dull hwn yn debyg i'r broses yng Nghanada ar gyfer gwaredu tanwydd niwclear a ddefnyddiwyd, sy'n dod yn ei flaen yn dda[73]. Mae Sefydliad Rheoli Gwastraff Niwclear Canada wedi cynnal trafodaethau cynnar gyda nifer o gymunedau â diddordeb ac mae bellach yn dechrau ar 'asesiadau addasrwydd cychwynnol' desg, gan ganolbwyntio ar addasrwydd daearegol posibl, lles y gymuned a'r buddiannau cymdeithasol-economaidd.

4.27 Mae'r ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth wedi tynnu sylw hefyd at yr angen i fynd i'r afael â materion amgylcheddol a chymdeithasol-economaidd yn gynt yn y broses. Roedd sawl un a ymatebodd yn pwysleisio pwysigrwydd problemau fel yr effeithiau posibl ar brisiau tai, busnesau a thwristiaeth, ac ardaloedd dynodedig o ddiddordeb gwyddonol, treftadaeth neu dirwedd (e.e. Parciau Cenedlaethol, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ayb.). Teimlai rhai y dylai ardaloedd dynodedig gael eu heithrio'n awtomatig o'r broses dewis safle. Wrth godi'r materion hyn, teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylid darparu mwy o wybodaeth yn gynnar yn y broses dewis safle, er mwyn lleihau'r ansicrwydd ynghylch effeithiau posibl CGD.

4.28 Pwysleisiodd sawl un o'r ymatebwyr i'r Cais am Dystiolaeth hefyd fod angen dweud yn union pryd fyddai Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) yn cael ei gynnal. O'r rheiny a fynegodd ddewis, yr awgrym oedd yn gynt yn hytrach na'n hwyrach, er nad oedd cytundeb amlwg am pryd yn union.

## Y newid arfaethedig yn y dull gweithredu

4.29 Yng ngoleuni'r gwersi a ddysgwyd yn Cumbria a llefydd eraill, a chan ystyried yr ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth, barn ddechreuol Llywodraeth y DU yw y dylid newid y strategaeth ar gyfer asesiad amgylcheddol a gwerthusiad cynaliadwyedd. Yn fras, byddai hyn yn golygu dod â rhai elfennau o'r strategaeth ymlaen, a dechrau ymdrin â'r materion amgylcheddol a chymdeithasol-economaidd lleol yn gynt yn y broses. Fel rhan o'r dull hwn, mae RWMD ar hyn o bryd yn cynllunio i wneud gwaith asesu cyffredinol pellach, gydag astudiaethau manwl ar faterion cymdeithasol, iechyd a chludiant.

4.30 Ni fyddai'r ymrwymiad a wnaed yn y Papur Gwyn i asesu a chymryd materion cynaliadwyedd i ystyriaeth yn llawn, yn newid. Ond ar y llaw arall, byddai'r dull a gynigir i gyflawni'r ymrwymiad hwn, fel ag y gosodwyd allan yn strategaeth asesu NDA yn 2009, yn newid.

4.31 Wrth lansio'r broses leoli ddiwygiedig, byddai Llywodraeth y DU ac RWMD yn cynnig rhoi rhagor o wybodaeth am yr effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol-economaidd, iechyd a chludiant posibl sy'n gysylltiedig â gweithredu gwaredu daearegol - yn seiliedig ar waith asesu cyffredinol - i unrhyw gymuned a fyddai â diddordeb mewn cael gwybod mwy am y broses.

4.32 Fel ag y crybwyllwyd ym mharagraffau 3.32 - 3.37, cynnig Llywodraeth y DU yw y dylai caniatâd cynllunio ar gyfer CGD gael ei geisio drwy'r drefn Prosiect

[73] http://bit.ly/1eDDlRq

Isadeiledd o Arwyddocâd Cenedlaethol, ac y bydd yn cyhoeddi Datganiad Polisi Cenedlaethol, yn benodol ar gyfer CGD ac yn canolbwyntio'n fanwl ar fanylder y broses dewis safle (gweler paragraffau 3.42-3.44). Byddai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol yn amodol ar Werthusiad Cynaliadwyedd (Appraisal of Sustainability – AoS) yn unol ag adran 5(3) o Ddeddf Cynllunio 2008. Cynhelid yr AoS mewn modd a fyddai'n bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA)[74] a byddai'n ystyried goblygiadau dulliau gwahanol o ddewis safle. Byddid yn cynhyrchu Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) ar wahân. Byddai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol, yr AoS cysylltiedig a HRA 'lefel cynllun' yn cael eu datblygu'n fuan wedi lansio'r broses dewis safle ddiwygiedig.

4.33 Pe bai diddordeb ar bob ochr mewn dysgu mwy am ardal arbennig, yna, yn ystod y cyfnod dysgu, byddai Llywodraeth y DU a RWMD yn gweithio gyda chymunedau â diddordeb i ddatblygu gwell dealltwriaeth o oblygiadau amgylcheddol a chymdeithasol-economaidd gwaredu daearegol o fewn eu hardaloedd. Byddai'r gwaith hwn yn digwydd ochr yn ochr â gwaith i ddatblygu gwell dealltwriaeth o addasrwydd y ddaeareg leol (gweler paragraff 3.16).

4.34 Yn ystod cam cynnar Cyfnod Ffocws, byddai'r wybodaeth a gafwyd ar y cyfyngiadau a'r cyfleoedd amgylcheddol a chymdeithasol-economaidd ar gael i gefnogi adnabod safleoedd posibl ar gyfer CGD. Fodd bynnag, unwaith y mae'r broses yn dechrau canolbwyntio ar nifer cymharol gyfyngedig o safleoedd 'mwy addas', yna byddai angen astudiaethau amgylcheddol a chymdeithasol-economaidd manylach i gefnogi penderfyniadau ynghylch pa rai o'r safleoedd hyn ddylid symud ymlaen arnynt gyda'r archwiliadau mewnwthiol arwynebol (megis tyllau turio).

4.35 Yn ystod y Cyfnod Ffocws (ac yn debyg iawn i'r dull presennol), byddai angen datblygu Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) ffurfiol (i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb EIA[75] - neu unrhyw ddeddfwriaeth gyfatebol mewn grym bryd hynny) ar lefel safle-benodol i gefnogi ceisiadau cynllunio ar gyfer tyllau turio ac wedyn, gwaith o dan y ddaear.

4.36 Yn debyg i'r dull presennol byddai HRA lefel prosiect yn cael ei gynnal ochr yn ochr â'r EIA – er mwyn asesu'r effeithiau posibl ar safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddeb Cynefinoedd y Comisiwn Ewropeaidd.

4.37 Os oes gan un o gymunedau Cymru ddiddordeb mewn lleoli CGD, bydd Llywodraeth Cymru'n cynnwys materion cymdeithasol-economaidd ac amgylcheddol wrth ystyried unrhyw newid polisi a allai fod ei angen, ac yn ymgynghori arnynt fel y bo'n briodol.

**Cwestiwn 8 - A gytunwch â'r dull gweithredu arfaethedig o fynd i'r afael â'r effeithiau cymdeithasol-economaidd ac amgylcheddol a allai ddeillio o leoli CGD? Os ydych yn anghytuno, pa ddull gweithredu arall fyddech yn ei gynnig a pham?**

---

[74] 2011/42/EC http://bit.ly/IQ6hrz
[75] 2011/92/EU http://bit.ly/zz7Nfb

# Pennod 5 – Crynodeb o'r cwestiynau

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

5.1 Nod y broses dewis safle i CGD yw dod o hyd i ffordd ddiogel ac ymarferol o ddelio â gwastraff ymbelydrol actifedd uchel sy'n bosibl ei gyflwyno ac sy'n ennyn hyder y cyhoedd. Cyn gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r broses a osodwyd allan yn y Papur Gwyn, wrth ymgyrraedd at y nod hon, mae Llywodraeth y DU eisiau bod yn fodlon ei bod wedi clywed, ac wedi cael y cyfle i ystyried, pob barn. Mae ymgysylltiad y cyhoedd â'r ymgynghoriad hwn a'u hymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd yn hollbwysig i lwyddiant y broses dewis safle - mae'ch barn chi'n bwysig. Ceir cwestiynau penodol y mae'r Llywodraeth yn ceisio barn arnynt yn y testun ei hun, ond fe'u hatgynhyrchir yma er mwyn cyfeirio atynt yn hawdd. Gallwch roi sylwadau ar bob un neu rai yn unig o'r cwestiynau a godwyd.

**Cwestiwn 1: A gytunwch y dylid cael prawf o gefnogaeth y cyhoedd cyn i'r awdurdod cynrychioliadol golli ei Hawl Tynnu'n Ôl? Os felly, beth dybiwch chi fyddai'r ffordd fwyaf priodol o brofi barn y cyhoedd, a phryd ddylid gwneud hynny? Os nad ydych yn cytuno fod angen prawf o'r fath, eglurwch pam os gwelwch yn dda.**

**Cwestiwn 2 - A gytunwch â'r newidiadau a awgrymir i'r trefniadau penderfynu o fewn y broses dewis safle MRWS? Os nad ydych yn cytuno, sut fyddech chi'n addasu'r dull gweithredu fesul cyfnod a awgrymir, neu pa ddull arall o weithredu a fyddech chi'n ei gynnig? Eglurwch eich rhesymeg os gwelwch yn dda.**

**Cwestiwn 3 - A gytunwch â'r dull hwn o ddiwygio swyddogaethau o fewn y broses dewis safle a nodwyd yn y Papur Gwyn? Os ydych yn anghytuno, pa ddull gweithredu arall fyddech yn ei gynnig a pham?**

**Cwestiwn 4 - A gytunwch â'r dull hwn o asesu addasrwydd daearegol fel rhan o broses dewis safle MRWS? Os ydych yn anghytuno, pa ddull gweithredu arall fyddech yn ei gynnig a pham?**

**Cwestiwn 5 - A gytunwch â'r dull hwn o gynllunio ar gyfer y cyfleuster gwaredu daearegol? Os ydych yn anghytuno, pa ddull gweithredu arall fyddech yn ei gynnig a pham?**

**Cwestiwn 6 - A gytunwch â'r eglurhad hwn o'r rhestr ar gyfer gwaredu daearegol – a sut dylid cyfleu hyn i'r gymuned sydd wedi gwirfoddoli i leoli'r cyfleuster? Os ydych yn anghytuno, pa ddull gweithredu arall fyddech yn ei gynnig a pham?**

**Cwestiwn 7 - A gytunwch â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer buddiannau cymunedol cysylltiedig â CGD? Os ydych yn anghytuno, pa ddull gweithredu arall fyddech yn ei gynnig a pham?**

**Cwestiwn 8 - A gytunwch â'r dull gweithredu arfaethedig o fynd i'r afael â'r effeithiau cymdeithasol-economaidd ac amgylcheddol a allai ddeillio o leoli CGD? Os ydych yn anghytuno, pa ddull gweithredu arall fyddech yn ei gynnig a pham?**

**Cwestiwn 9 - A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?**

## Sut i ymateb

5.2 Wrth ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu yn cynrychioli barn rhyw sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, eglurwch pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli, ac, os yn briodol, sut yr aethoch ati i gasglu barn yr aelodau.

5.3 Pan fydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn wedi cael eu dadansoddi, bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ymateb. Wrth ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bydd y Llywodraeth yn rhoi mwy o bwys ar ymatebion sy'n seiliedig ar ddadl a thystiolaeth, yn hytrach na datganiadau syml yn cefnogi neu'n gwrthwynebu.

5.4 Dechreuodd yr ymgynghoriad hwn ar **12 Medi 2013** a bydd yn cau ar **5 Rhagfyr 2013**.

### Ymateb ar lein

Drwy wefan y Llywodraeth https://econsultation.decc.gov.uk/decc-policy/managing-radioactive-waste-safely-siting-process/consult_edit

### Ymateb drwy lythyr neu e-bost

Ymgynghoriad Proses Leoli CGD / GDF Siting Process Consultation
Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd / Department of Energy and Climate Change
Ystafell / Room M07
55 Whitehall
Llundain / London
SW1A 2EY
Ebost: radioactivewaste@decc.gov.uk

Dylai ymatebion gan unigolion, cymunedau a sefydliadau yng Nghymru gael eu copïo i'r cyfeiriad isod yn ogystal â'u hanfon i un o gyfeiriadau'r DECC uchod:

Ymgynghoriad MRWS
Y Gangen Ymbelydredd ac Atal Llygredd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: RPPmailbox@wales.gsi.gov.uk

Dylai ymatebion gan unigolion, cymunedau a sefydliadau yng Ngogledd Iwerddon gael eu copïo i'r cyfeiriad isod yn ogystal â'u hanfon i un o gyfeiriadau'r DECC uchod:

Department of Environment
44 – 58 May Street
Town Parks
Belfast
BT1 4NN
E-mail: WDRT@doeni.gov.uk

## Cyfrinachedd a gwarchod data

5.5 Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, yn cynnwys enwau, yn cael eu gwneud yn gyhoeddus a gallant gael eu defnyddio yn y Senedd fel tystiolaeth ym mhroses graffu'r Senedd, a gellir eu cyhoeddi o dan awdurdod Seneddol, oni bo'r rhai sy'n ymateb yn gofyn yn benodol am gyfrinachedd.

5.6 Dylai'r ymatebwyr sy'n dymuno i'w hatebion aros yn gyfrinachol nodi hynny'n glir ar y ddogfen/dogfennau ac egluro'r rhesymau dros gyfrinachedd. Bydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd sy'n cael ei gynhyrchu gan system TG eich sefydliad yn berthnasol yn unig i wybodaeth yn eich ymateb y gwnaethoch gais penodol i'w gadw'n gyfrinachol.

5.7 Dylai'r rhai sy'n ymateb fod yn ymwybodol na ellir sicrhau cyfrinachedd bob amser. Er enghraifft, gall ymatebion, yn cynnwys gwybodaeth bersonol, orfod cael eu cyhoeddi neu eu rhyddhau yn unol â'r trefniadau mynediad i wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

## Copïau ychwanegol

5.8 Mae fersiynau electronig o'r holl ddogfennau a gyhoeddir fel rhan o'r ymgynghoriad hwn ar gael ar y wefan https://www.gov.uk/government/consultations/geological-disposal-facility-siting-process-review

5.9 Gallwch wneud copïau o'r dogfennau hyn heb ofyn am ganiatâd.

5.10 Mae copïau Saesneg o'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb ar gael ar y wefan y cyfeirir ati ym mharagraff 5.8.

## Y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad

5.11 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, dylid anfon y rhain at:

Cydlynydd yr Ymgynghoriad / Consultation Co-ordinator
Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd / Department of Energy and Climate Change
Area 6A
3Whitehall Place Llundain / London
SW1A 2AW

Ebost: Consultation.Coordinator@decc.gsi.gov.uk

5.12 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn yn unol ag Egwyddorion Ymgynghori'r Llywodraeth, a gellir gweld y rhain yma <https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/60937/Consultation-Principles.pdf>

# Geirfa

**Gwerthusiad cynaliadwyedd**
Gwerthusiad o gynaliadwyedd y polisi a osodir yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol, fel sy'n ofynnol gan Adran 5 (3) Deddf Gynllunio 2008. Fel arfer mae'r Arfarniad yn cynnwys asesiad yn unol â Chyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) Ewropeiadd a'i rheoliadau cyfatebol yn y DU.

**Rhestr Waelodlin**
Amcangyfrif o'r gwastraff ymbelydredd actifedd uchel a deunyddiau eraill a allai, o bosibl, gael eu hystyried yn fathau o wastraff y gall fod angen eu rheoli yn y dyfodol drwy waredu daearegol. Tynnir y rhestr o Restr Gwastraff Ymbelydrol y DU.

**Arolwg Daearegol Prydain (BGS)**
Arolwg Daearegol Prydain yw canolfan genedlaethol y DU ar gyfer gwybodaeth ac arbenigedd mewn gwyddorau daear, ac mae'n cynnig cyngor diduedd arbenigol ar bob agwedd o ddaeareg.

**CoRWM -Y Pwyllgor Annibynnol ar Reoli Gwastraff Annibynnol -** Sefydlwyd CoRWM yn 2003 i ddarparu cyngor annibynnol i'r Llywodraeth ar reoli gwastraff ymbelydrol actifedd uwch solet y DU yn y tymor hir. Ym mis Hydref 2007, ailgyfansoddwyd CoRWM gyda Chylch Gorchwyl diwygiedig ac aelodaeth newydd. Mae'r Pwyllgor yn craffu ac yn cynghori'n annibynnol Llywodraeth y DU a Gweinidogion y gweinyddiaethau datganoledig ar y rhaglen rheoli gwastraff ymbelydrol yn y tymor hir, yn cynnwys ei storio a'i waredu.

**Asiantaeth yr Amgylchedd / Environment Agency (EA)**
Yr asiantaeth reoleiddio i Loegr. Swyddogaeth yr Asiantaeth yw gorfodi deddfau a rheolau penodol a anelwyd at warchod yr amgylchedd, yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy, yn bennaf drwy awdurdodi a rheoli gollyngiadau ymbelydrol a gwaredu gwastraff i'r awyr, dŵr (dŵr wyneb a dŵr daear) a'r tir. Mae'r Environment Agency hefyd yn rheoleiddio safleoedd niwclear o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ac yn rhoi caniatâd ar gyfer gollyngiadau heb fod yn ymbelydrol.

**Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA)**
Gofyniad cyfreithiol o dan Gyfarwyddeb 2011/92/EU yr Undeb Ewropeaidd i fathau arbennig o brosiect, yn cynnwys amrywiol gategorïau o brosiectau rheoli gwastraff ymbelydrol. Er mwyn gwarchod yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd, mae'n mynnu fod awdurdod cymwys (yr awdurdod cynllunio, y Gweithgor Iechyd a Diogelwch neu reoleiddwyr perthnasol eraill) sy'n rhoi caniatâd i brosiect yn gwneud y penderfyniad yng ngoleuni unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd, a bod y cyhoedd yn cael cyfleoedd cynnar ac effeithiol i gymryd rhan yn y drefn gwneud penderfyniadau.

**Gwastraff Lefel Uchel (HLW)**
Gwastraff ymbelydrol sy'n creu gwres o ganlyniad i'w ymbelydredd, felly mae'n rhaid ystyried y ffactor hon wrth gynllunio cyfleusterau storio neu waredu.

**Gwastraff ymbelydrol actifedd uwch**

Mae'n cynnwys y categorïau canlynol o wastraff ymbelydrol: gwastraff lefel uchel, gwastraff lefel ganolraddol, cyfran fechan o wastraff lefel isel sydd â chrynhoad o radioniwclid sy'n ddigon i'w atal rhag cael ei waredu fel gwastraff lefel isel.

**Gwastraff lefel ganolraddol (ILW)**
Gwastraff ymbelydrol sydd y tu hwnt i ffiniau actifedd uchaf LLW ond nad oes angen ystyried gwres wrth gynllunio cyfleuster storio neu waredu.

**Gwastraff Etifeddol**
Gwastraff ymbelydrol sy'n bodoli'n barod neu y gwyddys y bydd yn codi yn y dyfodol oherwydd gweithrediad pwerdy niwclear sy'n bodoli'n barod.

**Gwastraff Lefel Isel (LLW)**
Diffinnir LLW fel gwastraff nad yw'n mynd y tu hwnt i lefelau penodedig o ymbelydredd. Drwyddi draw, prif gydrannau LLW yw rwbel adeiladu, pridd ac eitemau dur megis fframiau, pibelli a deunydd atgyfnerthu sy'n deillio o ddatgymalu a dymchwel adweithyddion niwclear a chyfleusterau niwclear eraill, a glanhau safleoedd niwclear.

**Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel -** Ymadrodd sy'n ymdrin â phroses gyfan ymgynghori â'r cyhoedd, y gwaith gan CoRWM, a chamau dilynol gan y Llywodraeth, i adnabod a gweithredu'r opsiwn, neu gyfuniad o opsiynau, ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol actifedd uwch y DU yn y tymor hir.

**Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales**
Yr asiantaeth reoleiddio i Gymru. Mae CNC yn gorfodi deddfau a rheolau penodol a anelwyd at warchod yr amgylchedd, yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy, yn bennaf drwy awdurdodi a rheoli gollyngiadau ymbelydrol a gwaredu gwastraff i'r awyr, dŵr (dŵr wyneb a dŵr daear) a'r tir. Mae CNC hefyd yn rheoleiddio safleoedd niwclear o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ac yn rhoi caniatâd ar gyfer gollyngiadau heb fod yn ymbelydrol.

**Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon / Northern Ireland Environment Agency**
Yr asiantaeth reoleiddio i Ogledd Iwerddon. Swyddogaeth yr Asiantaeth yw gorfodi deddfwriaeth a anelwyd at warchod yr amgylchedd. Gwneir hyn yn bennaf drwy awdurdodi a rheoli gollyngiadau ymbelydrol a gwaredu gwastraff i'r awyr, dŵr a'r tir.

**Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA)**
Sefydlwyd yr NDA ar 1 Ebrill 2004, o dan Ddeddf Ynni 2004. Mae'n gorff cyhoeddus anadrannol gyda chyfrifoldeb statudol ac ariannol dros ddatgomisiynu a rheoli'r rhwymedigaethau mewn safleoedd niwclear dynodedig, penodol. Gweithredir y safleoedd hyn o dan gytundeb gan gwmnïau a drwyddedwyd. Mae gan yr NDA ofyniad statudol o dan Ddeddf Ynni 2004, i gyhoeddi ac ymgynghori ar ei Strategaeth a'i Gynlluniau Blynyddol, sydd yn gorfod cael cytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion yr Alban. Cyfarwyddiaeth Rheoli Gwastraff Ymbelydrol (RWMD) yr NDA yw'r corff sy'n gyfrifol am gynllunio a gweithredu CGD.

**Fforwm Ymgynghori ar Etifeddiaeth Niwclear (NuLeAF)**
Grŵp diddordeb arbennig, a sefydlwyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol, i ddarparu mecanwaith ar gyfer canfod safbwynt cyffredin i lywodraeth leol ar faterion glanhau niwclear ac i fod yn rhyngwyneb gyda'r Llywodraeth a'r cyrff rheoleiddio wrth iddynt ymgynghori ar bolisi ac ymarfer rheoli a glanhau gwastraff.

**Y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR)**
Asiantaeth o fewn y Gweithgor Iechyd a Diogelwch (HSE) sy'n rheoleiddio diogelwch a gweithdrefnau diogelwch mewn cyfleusterau niwclear a chludo deunyddiau ymbelydrol. Bydd yr ONR yn dod yn gorff ymreolaethol maes o law, wedi ei wahanu o'r HSE ond yn dal i gael cefnogaeth ganddo.

**Y Gyfarwyddiaeth Rheoli Gwastraff Ymbelydrol (RWMD)**
Sefydlodd yr NDA y Gyfarwyddiaeth Rheoli Gwastraff Ymbelydrol (RWMD) i gynllunio a gweithredu rhaglen waredu daearegol ddiogel, gynaliadwy ac yn dderbyniol i'r cyhoedd. Maes o law, bydd RWMD yn dod yn is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr yr NDA. Yn y pen draw, bydd yn datblygu i fod y corff a fydd yn dal y drwydded safle niwclear i CGD. Yna mae'n bosibl y gellir cystadlu am berchnogaeth y corff hwn, yn unol â strwythur cytundebu presennol yr NDA i'w safleoedd eraill.

**Ailbrosesu**
Gweithredu gwahanu cemegol, er mwyn tynnu wraniwm neu blwtoniwm i'w hail ddefnyddio o weddillion tanwydd niwclear.

**Achosion diogelwch / Safety cases**
'Achos diogelwch' yw dogfennaeth ysgrifenedig sy'n dangos fod y peryglon a gysylltir â safle, gweithle, rhan o weithle neu addasu gweithle cyn ised ag sy'n ymarferol resymol a bod y safonau perthnasol wedi cael eu bodloni. Mae angen achosion diogelwch ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy mewn safleoedd niwclear fel amodau trwydded o dan Ddeddf Gosodiadau Niwclear 1965.

**Arolwg seismig**
Techneg ar gyfer penderfynu ar strwythur manwl y creigiau sydd o dan ardal arbennig drwy basio siocdonnau acwstig i mewn i haenau'r graig a chanfod a mesur y signalau sy'n cael eu hadlewyrchu.

**Gweddillion tanwydd (gweddillion tanwydd niwclear) / Spent fuel**
Casgliadau o danwydd a ddefnyddiwyd a dynnwyd o adweithydd gwaith niwclear ar ôl nifer o flynyddoedd o ddefnydd sy'n cael eu storio cyn eu hailbrosesu yn ddeunyddiau i'w hailddefnyddio; neu os mai gwastraff ymbelydrol ydyw, i'w storio mewn CGD.

**Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA)**
Yn y ddogfen hon, mae SEA yn cyfeirio at y math o asesiad amgylcheddol sy'n ofynnol yn gyfreithiol gan Gyfarwyddeb 2001/42/EC y Comisiwn Ewropeaidd wrth baratoi cynlluniau a rhaglenni arbennig. Mae'n rhaid i'r awdurdod sy'n gyfrifol am gynllun neu raglen baratoi adroddiad ar effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol y cynllun neu'r rhaglen, ymgynghori â'r cyhoedd ar yr adroddiad amgylcheddol a

chynigion y cynllun neu’r rhaglen, ystyried y canfyddiadau, a rhoi gwybodaeth am y cynllun neu’r rhaglen fel ag y’i mabwysiadwyd yn derfynol.

**Rhestr Stoc Gwastraff Ymbelydrol y DU (UKRWI)**
Casgliad o ddata ar ddaliadau gwastraff ymbelydrol y DU, a gynhyrchir oddeutu pob tair blynedd. Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf, yn ymwneud â’r sefyllfa ar 1 Ebrill 2010, ym mis Chwefror 2011. Fe’i cynhyrchir gan DECC a’r NDA.

**Y ‘Papur Gwyn’**
Papur Gwyn Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel 2008.